



# Rheoli meddyginiaethau yng Nghanolfan Ganser Felindre

## **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 496A2015

# Statws yr adroddiad

---

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn pennu'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@wao.gov.uk](mailto:info.officer@wao.gov.uk).

Aelodau'r tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Stephen Lisle, Stephen Pittey a Nigel Blewitt.

# Cynnwys

---

Gwelsom lawer o agweddau da ar reoli meddyginiaethau yn y ganolfan ganser. Fodd bynnag, mae'r tîm fferylliaeth yn cael anhawster i fodloni'r galw, nid yw'r cyfleusterau yn llwyr gydymffurfio â'r gofynion ac nid oes strategaeth eglur ar gyfer sbarduno gwelliant.

---

## Adroddiad cryno

Cefndir	4
Canfyddiadau allweddol	6
Argymhellion	8

---

## Yr adroddiad manwl

<b>Rhan 1. Trefniadau corfforaethol</b>	10
---	----

Er bod fferylliaeth yn cael budd o'i phroffil uchel o fewn yr ysbyty, byddai modd i feddygon ymgysylltu mwy â materion rheoli meddyginiaethau corfforaethol, a hyd yma nid oes strategaeth gadarn ar gyfer sbarduno datblygiadau yn y dyfodol

<b>Rhan 2. Y gweithlu</b>	15
---------------------------	----

Mae cyfranogiad y fferyllwyr yn y clinigau yn nodwedd bositif, ond mae'r tîm fferylliaeth yn cael anhawster i fodloni'r galw, a'r mewnbwn fferyllol yn y wardiau yn rhy anghyson

<b>Rhan 3. Cyfleusterau</b>	28
-----------------------------	----

Mae cyfleusterau'r fferyllfa yn gyfyng, ac nid ydynt yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion allweddol. Mae rhai materion yn parhau heb eu datrys ynglŷn â storio meddyginiaethau yn y fferyllfa ac yn y wardiau

<b>Rhan 4. Prosesau</b>	32
-------------------------	----

Mae gan yr Ymddiriedolaeth rai prosesau da, gan gynnwys defnyddio presgripsiynu electronig, cynnal cysoniadau yn brydlon, a rôl y presgripsiynwyr anfeddygol. Mae materion yn codi mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth gyda'r sector gofal sylfaenol, gwirio cyffuriau rheoledig, a diffyg hunan-weinyddu

<b>Rhan 5. Monitro</b>	44
------------------------	----

Ni ddefnyddir y data perfformiad mewn perthynas â meddyginiaethau yn ddigon rheolaidd i hyrwyddo gwelliant; ac er bod agweddau da i'r modd y dysgir o ganlyniad i ddigwyddiadau, dylid gwneud rhagor o waith er mwyn deall pam y mae ymyriadau diogelwch gan fferyllwyr yn digwydd yn amlach na'r cyfartaledd

---

## Atodiadau

Methodoleg	50
------------	----

---

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1. Y math mwyaf cyffredin o ymyriad therapiwtig yn y GIG yw presgripsiynu meddyginiaethu.<sup>1</sup> Yn 2013-14, gwariwyd £258 miliwn gan y cyrff iechyd yng Nghymru ar brynu cyffuriau (sef wyth y cant yn fwy nag yn 2012-13)<sup>2</sup>.
2. Mae 'rheoli meddyginiaethu' yn golygu llawer mwy na phrynu cyffuriau yn unig. Mae'r term yn cwmpasu'r holl brosesau ac ymddygiadau sy'n dylanwadu ar ddefnyddio meddyginiaethau yn glinigol a chost-efeithiol ac ar ganlyniadau positif i'r cleifion.
3. Mae rheolaeth dda ar feddyginiaethau cleifion yn angenrheidiol er mwyn sicrhau'r driniaeth a'r adferiad gorau iddynt, a chael y gwerth gorau am yr arian a delir am eu meddyginiaeth. Yn **Arddangosyn 1** dangosir prif ffynonellau'r niwed a all ddigwydd i gleifion drwy reoli eu meddyginiaethau yn wael.

### Arddangosyn 1: Ffeithiau allweddol am y tair prif ffynhonnell niwed oherwydd meddyginiaethau



Ffynhonnell: Gweler y troednodiadau am ffynonellau'r data ynghylch adweithiau anffafriol<sup>3</sup>, gwallau presgripsiynu<sup>4</sup> a diffyg ymlyniad<sup>5,6</sup>

<sup>1</sup> 1000 o Fywydau a Mwy – [www.1000livesplus.wales.nhs.uk/medicines](http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/medicines).

<sup>2</sup> Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni ariannol y GIG, gan gynnwys gwariant o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd.

<sup>3</sup> Pirmohamed et al, **Adverse drug reactions as cause of admission to hospital: prospective analysis of 18820 patients**, British Medical Journal, 2004; 329(7456), 15-19.

- 
4. Ym Mai 2014, mewn adolygiad annibynnol<sup>7</sup> a elwid **Ymddiried mewn Gofal** (Adroddiad Andrews) ac a gynhaliwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, tynnwyd sylw at sawl problem ddifrifol ynglŷn â gofal cleifion, a chodwyd materion penodol yn ogystal ynglŷn â rhoi a chofnodi meddyginiaethau. Yn sgil **Ymddiried mewn Gofal**, gorchmynnodd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wiriadau dirybudd gael eu cynnal mewn sampl o wardiau mewn 20 o ysbytai ledled Cymru. Y prif ganfyddiadau o'r gwiriadau hynny oedd fod angen gwella'r safonau mewn perthynas â gweinyddu a storio meddyginiaethau, a hefyd wrth lenwi siartiau cyffuriau.
  5. Roedd **Ymddiried mewn Gofal** yn pwysleisio hefyd bwysigrwydd cydweithio rhwng pob math o weithwyr gofal iechyd i reoli meddyginiaethau'r cleifion. Er bod y staff fferyllol mewn safle canolog o ran rheoli meddyginiaethau, mae gan staff o bob disgyblaeth ran bwysig i'w chwarae, fel y nodir mewn canllawiau gan gyrrff cynrychiadol<sup>8,9</sup>. Dylid grymuso'r cleifion eu hunain hefyd, i'w helpu i gael y gorau allan o'u meddyginiaeth.
  6. Mae presgripsiynu meddyginiaethau yn ddarbodus yn ffocws allweddol yn agenda 'gofal iechyd darbodus' Llywodraeth Cymru. Egwyddorion gofal iechyd darbodus yw ymatal rhan achosi unrhyw niwed diangen, ymyrryd cyn lleied ag y bo'n briodol a hyrwyddo tegwch rhwng y bobl sy'n darparu ac yn defnyddio'r gwasanaethau. Nodweddiion allweddol presgripsiynu darbodus, felly, yw presgripsiynu'n ddiogel gan leihau i'r eithaf unrhyw adweithiau anffafriol i'r cyffuriau, presgripsiynu'n geidwadol rhag i gleifion gymryd meddyginiaethau yn ddiangen, a chynnwys y cleifion yn llawn mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal eu hunain.
  7. Mae rheoli meddyginiaethau yn agenda sy'n newid yn gyflym oherwydd technolegau a chyffuriau newydd, cyffuriau newydd ac oherwydd ailgynllunio'r gwasanaethau. Gan mai gwariant ar feddyginiaethau yw un o'r eitemau mwyaf yng ngwariant y GIG, mae cyni hefyd yn sbarduno newid yn y modd y rheolir meddyginiaethau, gyda sefydliadau yn ailystyried y llwybrau triniaeth er m wyn sicrhau y darperir triniaethau clinigol-briodol a chost-effeithiol ar yr adegau cywir. Am y rhesymau hyn, credwn fod y presennol yn amser da i edrych ar y materion hyn ledled Cymru.
  8. Mae ein hastudiaeth yn canolbwyntio ar agweddau ar reoli meddyginiaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gleifion mewnol mewn ysbytai aciwt. Rydym yn ymdrin â gwybodaeth am feddyginiaethau a ddarperir gan feddygon teulu i ategu derbyniadau i ysbytai, adolygiadau o feddyginiaethau a roddir i gleifion yn ystod eu harhosiad, y cymorth a roddir i gleifion i gymryd eu meddyginiaethau a'r trefniadau a wneir i sicrhau rheolaeth dda ar feddyginiaethau ar ôl rhyddhau'r cleifion. Rydym yn hepgor caffael meddyginiaethau ac, i raddau helaeth, yn hepgor cyflenwi meddyginiaethau.

---

<sup>4</sup> Lewis et al, **Prevalence, incidence and nature of prescribing errors in hospital inpatients: a systematic review**, *Drug Saf* 2009; 32:379-89.

<sup>5</sup> 1000 o Fwydau a Mwy, **Achieving prudent healthcare in NHS Wales**, Mehefin 2014.

<sup>6</sup> Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr (RPSGB), **From Compliance to Concordance – Achieving Partnership in Medicine-Taking**, RPSGB, Llundain, 1997. Shapps, Grant, **A bitter pill to swallow: A report into the cost of wasted medicine in the NHS**, Mehefin 2007.

<sup>7</sup> Yr Athro June Andrews, Mark Butler, **Ymddiried mewn Gofal: Adroddiad Adolygiad Allanol Annibynnol o Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**, Mai 2014.

<sup>8</sup> Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, **Standards for Medicines Management**.

<sup>9</sup> Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, **Good practice in prescribing and managing meddyginiaethau and devices**, 31 Ionawr 2013.

- 
9. Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at y sefyllfa yng Nghanolfan Ganser Felindre o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (Yr Ymddiriedolaeth). Rydym yn gwneud cymariaethau â byrddau iechyd ledled Cymru ac yn cyflwyno data o ymweliadau â wardiau ac adolygiadau o gleifion mewn tair ward yn y ganolfan ganser. Wrth adolygu'r wybodaeth hon, gan fod natur gwasanaethau Felindre'n wahanol, rhaid bod yn ochelgar wrth drin cymariaethau â byrddau iechyd eraill. Rhoddir manylion llawn am ein methodoleg yn **Atodiad 1**.
  10. Yn yr Ymddiriedolaeth, roedd ein hadolygiad yn ceisio cael ateb i'r cwestiwn canlynol: **A oes trefniadau diogel, effeithiol ac effeithlon ar gyfer rheoli meddyginiaethau cleifion mewnol yng Nghanolfan Ganser Felindre?**
  11. Nodir canfyddiadau allweddol ein gwaith isod, ac ystyrir y canfyddiadau ymhellach yn yr adran fanwl o'r adroddiad.

## Canfyddiadau allweddol

12. Ein casgliad cyffredinol yw: **Gwelsom lawer o agweddau da ar reoli meddyginiaethau yn y ganolfan ganser. Fodd bynnag, mae'r tîm fferylliaeth yn cael anhawster i fodloni'r galw, nid yw'r cyfleusterau yn llwyr gydymffurfio â'r gofynion ac nid oes strategaeth eglur ar gyfer sbarduno gwelliant.** Mae'r tabl isod yn rhoi manylion pellach am ein canfyddiadau allweddol :

**Trefniadau corfforaethol:** Er bod fferylliaeth yn cael budd o'i phroffil uchel o fewn yr ysbyty, byddai modd i feddygon ymgysylltu mwy â materion rheolaeth meddyginiaethau corfforaethol, a hyd yma nid oes strategaeth gadarn ar gyfer sbarduno datblygiadau yn y dyfodol

- Er bod y llinellau atebolrwydd yn y Fferyllfa yn eglur, bach iawn yw'r arweiniad a geir gan y staff meddygol yn y mater o reoli meddyginiaethau, a gallai meddygon gyfrannu mwy yn y Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau, ond ar lefel sy'n rhy uchel, a hyd yma nid yw'n sbarduno gwelliant a blaenoriaethu o fewn y gwasanaethau rheoli meddyginiaethau.
- Mae proffil fferylliaeth yn gymharol uchel yn y ganolfan ganser, a dylai'r Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth mewnol sydd ar droed godi'r ymwybyddiaeth o faterion fferylliaeth yn uwch, ar bob lefel o fewn y sefydliad.
- Meddyginiaethau sy'n cyfrif am 70 y cant o'r gwariant ac eithrio cyflogau yn y ganolfan ganser, ond mae'r cynllun arbedion meddyginiaethau yn canolbwyntio ar un fenter yn unig.
- Mae pwyllgor ceisiadau cyllido cleifion unigol yr Ymddiriedolaeth yn ystyried mwy o geisiadau ac yn hawlio mwy o amser y staff fferyllol, o gymharu â chyrrff iechyd eraill yng Nghymru.

**Y gweithlu:** Mae cyfranogiad y fferyllwyr yn y clinigau yn nodwedd bositif, ond mae'r tîm fferylliaeth yn cael anhawster i fodloni'r galw, a'r mewnbwn fferyllol yn y wardiau yn rhy anghyson

- Mae'n amlwg bod y gweithlu rheoli meddyginiaethau yn teimlo ei fod o dan bwysau, a dylai'r Ymddiriedolaeth benderfynu yn awr ar ddull o reoli'r cyfyngiadau ar alluoedd, ac ystyried ffyrdd gwahanol o gyflenwi gwasanaethau.
- Er bod yr Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth yn awgrymu bod angen rhagor o staff, mae'n bosibl bod y cyfrifiad yn tanddatgan maint yr adnodd sydd ei angen mewn gwirionedd, gan nad yw'r adolygiad yn cymryd i ystyriaeth y galw cynyddol a wasanaethau fferylliaeth, ond yn canolbwyntio ar y ffordd y defnyddir adnoddau fferylliaeth ar hyn o bryd, ac nid y ffordd y **dylid** eu defnyddio yn y dyfodol.
- Mae'r gyfran o'r adnodd fferylliaeth a ddyrennir i hyfforddiant a datblygu yn llai na'r cyfartaledd Cymreig, ond roedd y meddygon a'r nyrsys yn gadarnhaol ynglŷn â'u gallu i ddiweddarau ei sgiliau o ran meddyginiaethau.
- Mae'r berthynas rhwng y fferyllwyr a staff eraill yn y wardiau yn dda, ond nid cystal ag ydyw mewn byrddau iechyd eraill, hwyrach o herwydd anghysondeb cyfranogiad y fferyllwyr yn y wardiau.
- Dywedodd meddygon a nyrsys wrthym fod gwasanaethau fferylliaeth ar gael iddynt yn gyffredinol er bod oriau agor y fferyllfa ychydig yn llai na'r cyfartaledd.

**Cyfleusterau:** Mae cyfleusterau'r fferyllfa yn gyfyng, ac nid ydynt yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion allweddol. Mae rhai materion yn parhau heb eu datrys ynglŷn â storio meddyginiaethau yn y fferyllfa ac yn y wardiau

- Mae cyfleusterau'r fferyllfa yn gyfyng, ac ni fodlonir pob un o'r gofynion allweddol o ran ei lleoliad, ei diogelwch ffiniol a storio eitemau uwchlaw lefel y llawr. Roedd yr adborth gan gleifion yn awgrymu bod y ffordd yn bell i gleifion allanol gerdded ati; a chafwyd enghreifftiau o bersonél heb awdurdod yn cael mynediad i goridor y fferyllfa.
- Mae gwaith ar droed i gywiro diffygion yn yr uned aseptic ac, fel yng ngweddill Cymru, nid yw'r modd y paratwir meddyginiaethau chwistrelladwy yn y wardiau yn cael ei archwilio'n rheolaidd.

**Prosesau:** Mae gan yr Ymddiriedolaeth rai prosesau da, gan gynnwys defnyddio presgripsiynu electronig, cynnal cysoniadau yn brydlon, a rôl y presgripsiynwyr anfeddygol. Mae materion yn codi mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth gyda'r sector gofal sylfaenol, gwirio cyffuriau rheoledig, a diffyg hunan-weinyddu.

- Yn gyffredinol, negyddol oedd barn y staff am ansawdd yr wybodaeth a ddarperir gan ymarferwyr meddygol cyffredinol, ac mae technegwyr yn treulio amser gwerthfawr yn ceisio cael gwybodaeth am feddyginiaethau cleifion gan y sector gofal sylfaenol.
- Cysonid meddyginiaethau mwyafrif o'r cleifion o fewn un diwrnod ar ôl eu derbyn er bod llai o cleifion yr Ymddiriedolaeth yn cael adolygiad cynhwysfawr o'u meddyginiaethau, o gymharu â gweddill Cymru.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r siart gyffuriau safonol ar gyfer pob claf, a chawsom fod y modd y cofnodid statws alergedd cleifion yn dda, er bod lle i wella o ran cofnodi dyddiadau, hanes meddyginiaethol a chysoniadau meddyginiaethau.
- Roedd staff meddygol yr Ymddiriedolaeth yn fwy cadarnhaol na'r staff yng ngweddill Cymru ynghylch defnyddioldeb y cyffurlyfr, ond gellid gwneud rhagor i wella argaeledd Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain.
- Mae Felindre wedi defnyddio system bresgripsiynu electronig ers blynyddoedd lawer, ac mewn sefyllfa dda i rannu'r hyn a ddysgodd gyda gweddill Cymru.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu rôl y fferyllwyr sy'n presgripsiynu ymhellach na gweddill Cymru; ac er bod manteision hynny yn amlwg, mae'r arferiad hefyd yn tynnu'r fferyllwyr oddi wrth eu tasgau creiddiol.
- Cymharol brin yn yr Ymddiriedolaeth oedd achosion pan nad oedd yn eglur a oedd cyffur wedi ei roi ai peidio. Fodd bynnag, mae'r wardiau'n amrywio o ran eu dull o wirio cyffuriau rheoledig, ac nid oes polisi ar gyfer hunan-weinyddu cyffuriau gan gleifion.
- Cymharol brin yn yr Ymddiriedolaeth oedd achosion o ddiffyg cydymffurfio ymhlith cleifion; ac er mai ychydig o amser y tîm fferylliaeth a dreulir yn addysgu cleifion yn y wardiau, mae'r gwasanaeth addysg cemotherapi geneuol a arweinir gan dechnegydd yn enghraifft o arfer da.
- Roedd fferyllwyr, nyrsys a meddygon yn cytuno mai'r rhesymau mwyaf cyffredin am oedi cyn rhyddhau cleifion, mewn cysylltiad â meddyginiaethau, oedd aros i bresgripsiynau gael eu hysgrifennu, ac oedi cyn eu darparu. Mae lle hefyd i wella'r modd y cyfathrebir â gofal sylfaenol ynghylch meddyginiaethau pan ryddheir cleifion .
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd nifer o gamau buddiol i wella'r modd y defnyddir meddyginiaethau gwrthficrobaidd. Mae lle i wella ymhellach y dull o gofnodi parhad triniaethau ar y siartiau cyffuriau.

**Monitro:** Ni ddefnyddir y data perfformiad mewn perthynas â meddyginiaethau yn ddigon rheolaidd i hyrwyddo gwelliant; ac er bod agweddau da i'r modd y dysgir o ganlyniad i ddigwyddiadau, dylid gwneud rhagor o waith er mwyn deall pam y mae ymyriadau diogelwch gan fferyllwyr yn digwydd yn amlach na'r cyfartaledd.

- Mae lle i wella rhywfaint ar y modd y defnyddir ac y rhennir data perfformiad, er mwyn gwella rheolaeth meddyginiaethau ymhellach .
- Roedd cyfradd yr ymyriadau a wnaed gan fferyllwyr yn uwch nag yng ngweddill Cymru, a'r data yn anghyson ynglŷn â chyfradd y derbyniadau a oedd yn gysylltiedig â meddyginiaethau.
- Mae rhai agweddau da i'r modd y dysgir o ganlyniad i gamgymeriadau ynghylch meddyginiaethau; ond nid oedd safbwyntiau'r tîm fferylliaeth mor bositif ag yng ngweddill Cymru, a dylid gwneud rhagor o waith er mwyn deall pam y mae cyfran gymharol uchel o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â meddyginiaethau.

---

## Argymhellion

- R1 Trefniadau corfforaethol:** Mewn perthynas â Rhan 1 o'r adroddiad, dylai'r Ymddiriedolaeth:
- Sicrhau bod meddygon yn ymgysylltu mwy â materion rheolaeth meddyginiaethau corfforaethol, hwyrach drwy gylchdroi cadeiryddiaeth y Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau (PRhM) ymhlith staff ymgynghorol yr ysbyty.
  - Yn gysylltiedig â datblygu'r Cynllun Amlinell Strategol ar gyfer gwasanaethau canser, ymgysylltu â'r staff a'r cleifion ynghylch cyfeiriad strategol rheolaeth meddyginiaethau, gyda'r nod terfynol o ddatblygu strategaeth fanwl.
  - Ystyried datblygu cynllun ariannol ehangach ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Dylai'r cynllun osgoi effeithio ar ansawdd y gofal, ond dylai asesu a oes cyfle i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy wella'r modd y caffaelir cyffuriau neu drwy gyflenwi gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol.
- R2 Y gweithlu:** Mewn perthynas â Rhan 2 o'r adroddiad, dylai'r Ymddiriedolaeth:
- Cryfhau'r Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth fel y gall ystyried y cynnydd yn y galw a'r model gwasanethau posibl yn y dyfod, a chymharu'r niferoedd y staff a'r cymysgedd sgiliau gyferbyn â'r hyn a geir mewn canolfannau canser eraill.
  - Ystyried defnyddio Tîm Gwella Gwasanaethau yr Ymddiriedolaeth neu adnoddau eraill i ymchwilio i fanteision posibl y dulliau amgen o ddefnyddio'r adnoddau nyrsio a fferylliaeth yn fwy effeithlon, a drafodir yn yr adroddiad hwn.
  - Gwella parhad a chysondeb y mewnbwn fferylliaeth, drwy sicrhau bod gan bob ward fferylllydd enwebedig penodol, sydd ar gael yn rheolaidd fel y prif bwynt cyswllt.
- R3 Cyfleusterau:** Mewn perthynas â Rhan 3 o'r adroddiad, dylai'r Ymddiriedolaeth:
- Gwella diogelwch ffiniol yr adran fferylliaeth drwy sicrhau y cedwir y drysau dwbl i'r brif storfa ar gau, ac ystyried defnyddio system fynediad amgen yn hytrach na'r system cod pin bresennol
  - Cynnal archwiliadau ward rheolaidd o'r modd y paratoir meddyginiaethau chwistrelladwy a thymereddau oergelloedd cyffuriau.
  - Datblygu cynllun i wella diogelwch y dull o storio meddyginiaethau yn y wardiau, gan roi sylw i'r materion a bennir yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â meddyginiaethau sydd o fewn cyrraedd i ffenestri agored a chypyrddau meddyginiaethau sydd heb eu cloi.
  - Hwyluso cyflawni argymhellion Arbenigwr Sicrwydd Ansawdd Fferyllol Cymru ynglŷn â gwella'r cyfleusterau aseptig, gan sicrhau y cyflwynir adroddiad am y cynnydd i'r PRhM.



---

R4 **Prosesau:** Mewn perthynas â Rhan 4 o'r adroddiad, dylai'r Ymddiriedolaeth:

- a. Sicrhau bod siartiau cyffuriau yn cofnodi dyddiadau'r hanesion meddyginiaethau a'r cysoniadau, yn enwedig pan ailysgrifennir y cofnodion..
- b. Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i bennu amserlen a chynllun cyllido eglur ar gyfer gweithredu'r Cofnod Iechyd Unigol (CIU) a'r system Trawsgrifio Meddyginiaethau a Rhyddhau Electronig (TMRhE).
- c. Trefnu trafodaeth fanwl yn y Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau gyda'r nod o ddod i benderfyniad corfforaethol ar y posibilrwydd o fabwysiadu polisi ar hunan-weinyddu gan gleifion.
- d. Gan gymryd i ystyriaeth y canllawiau arfaethedig gan y Grŵp Gweinyddu, Cofnodi, Adolygu a Storio Meddyginiaethau cenedlaethol (MARRS), dod i benderfyniad ffurfiol ar briodoldeb gwirio gweinyddu cyffuriau rheoledig gan un nyrs yn unig.
- e. Dysgu oddi wrth y gwaith cenedlaethol ar Bresgripsiynu Darbodus er mwyn datblygu cynllun gweithredu a fydd y peri bod fferylliaeth yn canolbwyntio mwy ar ganfod anghenion cydymffurfiaeth cleifion, addysgu/cwnsela cleifion, gwella'r wybodaeth am feddyginiaethau a chynorthwyo cleifion i gymryd eu meddyginiaethau yn briodol.
- f. Datblygu cynllun sydd â chyllid a therfyn amser ar gyfer cyflwyno adolygiadau meddyginiaethau rhyddhau (AMRhau).

R5 **Monitro:** Mewn perthynas â Rhan 5 o'r adroddiad, dylai'r Ymddiriedolaeth:

- a. Adolygu ei phortffolio o ddangosyddion perfformiad rheoli meddyginiaethau er mwyn sicrhau bod y perfformiad yn cael ei fonitro'n aml a'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r staff, a gweithio gyda'r byrddau iechyd i feincnodi'r perfformiad yn rheolaidd
- b. Dadansoddi cyfradd yr ymyriadau diogelwch a wneir gan fferyllwyr er mwyn canfod y rhesymau gwaelodol a phenderfynu a ddylid gwneud rhagor i atal gwallau ac achosion 'ddihangfa gyfyng' yn hytrach na'u cywiro wedi iddynt ddigwydd
- c. Dadansoddi'r rhesymau pam y bu lleihad ers 2008 yn y gyfran o'r digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â meddyginiaethau, a cheisio deall barn gymharol negyddol y staff fferyllol am y modd yr adroddir am ddigwyddiadau.
- d. Sicrhau bod swyddogaethau'r Swyddog Diogelwch Meddyginiaethau yn cael eu cyflawni'n rheolaidd .

# Rhan 1

---

## Trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli meddyginiaethau

Er bod fferylliaeth yn cael budd o'i phroffil uchel o fewn yr ysbyty, byddai modd i feddygon ymgysylltu mwy â materion rheoli meddyginiaethau corfforaethol, a hyd yma nid oes strategaeth gadarn ar gyfer sbarduno datblygiadau yn y dyfodol

## Strwythurau arweinyddiaeth ac atebolrwydd


Er bod y llinellau atebolrwydd yn y Fferyllfa yn eglur, bach iawn yw'r arweiniad a geir gan y staff meddygol yn y mater o reoli meddyginiaethau, a gallai meddygon gyfrannu mwy yn y Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau

13. Mae arweinyddiaeth effeithiol a llinellau atebolrwydd eglur yn gydrannau hollbwysig mewn unrhyw wasanaeth gofal iechyd. Mae'r rheoli meddyginiaethau ychydig yn gymhleth, gan fod y maes yn cynnwys gwasanaethau a phrosesau sy'n pontio staff fferyllol, nyrsio a meddygol. Er hynny, mae atebolrwydd a strwythurau eglur ar y lefelau uwch yn parhau'n bwysig.
14. Yn yr Ymddiriedolaeth, y Cyfarwyddwr Meddygol yw'r arweinydd gweithredol ar gyfer rheoli meddyginiaethau, a'r Pennaeth Nyrsio yw'r arweinydd ar gyfer rheoli meddyginiaethau o safbwynt nyrsio. Nid oes unrhyw rolau arweinyddol eraill o fewn y staffiau meddygol neu nyrsio sy'n ymwneud yn benodol â rheoli meddyginiaethau. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn cydnabod y manteision posibl a enillid pe penodid un o'i feddygon ymgynghorol yn arweinydd ar gyfer rheoli meddyginiaethau.
15. Mae'r **Safonau Proffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Fferyllol mewn Ysbytai**<sup>10</sup> (y Safonau) yn datgan y dylai fod llinellau cyfrifoldeb proffesiynol a threfniadol eglur o fewn y gwasanaeth fferyllol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth strwythur eglur sy'n cynnwys haen o bedair o swyddi rheolwyr, yn union islaw'r Prif Fferylllydd. Mae'r haen hon yn cynnwys dau brif fferylllydd, un yn gyfrifol am wasanaethau aseptic a'r llall y gyfrifol am wasanaethau clinigol, yn ogystal â'r fferylllydd arweiniol ar gyfer treialon clinigol, a'r rheolwr caffael fferyllol a TG.
16. Mae **Arddangosyn 2** yn dangos bod 69 y cant o'r staff fferyllol yn ein harolwg ni, a gynhaliwyd ledled Cymru, yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae llinellau atebolrwydd eglur yn y tîm fferylliaeth'. Roedd y ffigur cyfatebol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn debyg i'r ffigur o 70 y cant ar gyfer Cymru gyfan.

---

<sup>10</sup> Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, **Professional Standards for Hospital Pharmacy Services**, Gorffennaf 2012.

**Arddangosyn 2: Cytunodd staff fferyllol yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol â'r gosodiad "Mae llinellau atebolrwydd eglur yn y tîm fferylliaeth"**



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Fferyllol

17. Mae'r Safonau yn datgan hefyd y dylai fod gan gyrff iechyd grŵp rheoli meddyginiaethau sy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer datblygu polisi, gweithdrefnau a chanllawiau ar feddyginiaethau. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Rheoli Meddyginiaethau (PRhM) sydd yn 'sichrau y defnyddir meddyginiaethau yn ddiogel ac yn gost-effeithiol' ac 'y'u defnyddir yn unol â'r arfer gorau cydnabyddedig cyfredol'.
18. Dylai'r grŵp meddyginiaethau fod yn amlddisgyblaethol i adlewyrchu'r ffaith fod rheoli meddyginiaethau yn gyfrifoldeb i nifer o gategoriâu o weithwyr proffesiynol clinigol. Staff nyrsio yw 20 y cant o aelodaeth y PRhM (o gymharu â chyfartaledd o naw y cant ledled Cymru) a staff meddygol yw 50 y cant o'r aelodaeth (o gymharu â 46 y cant ledled Cymru).
19. Byddai modd i'r staff meddygol gynyddu cyfranogiad yn y PRhM. Mae cylch gorchwyl y grŵp yn datgan y dylai'r PRhM gael ei gadeirio gan feddyg ymgynghorol, ond ar hyn o bryd ei gadeirydd yw'r Prif Fferylllydd. Ysgogir ei agenda hefyd, i raddau helaeth, gan yr Adran Fferylliaeth. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn cydnabod pwysigrwydd y pwyllgor hwn, ac nad yw ei broffil yn ddigon amlwg hyd yma ymhlith y staff meddygol.

## Strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau

Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau, ond ar lefel sy'n rhy uchel, a hyd yma nid yw'n sbarduno gwelliant a blaenoriaethu o fewn y gwasanaethau rheoli meddyginiaethau

20. Dylai fod gan yr Ymddiriedolaeth weledigaeth strategol eglur ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Dogfen o ddwy dudalen yw Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau Felindre, a ddatblygwyd gan y Prif Fferylllydd

---

yn 2014 gyda mewnbwn gan y Cyfarwyddwr Meddygol ac a lofnodwyd ar ran y PRhM. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol ynglŷn â diogelwch, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, llywodraethu clinigol da a rheoli risgiau, a chyflenwi meddyginiaethau 'drwy broses rhagweithiol a addesir yn unol â'r anghenion a chymhellion lleol a chenedlaethol'.

21. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod mai strategaeth ar lefel uchel yw hon, a daethom i'r casgliad nad yw'n ddigon penodol i bennu meysydd blaenoriaeth a chyfeiriad i'r gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Mae'n ymddangos hefyd fod y strategaeth wedi ei datblygu heb ymgysylltu fawr ddim â staff y gwasanaethau rheoli meddyginiaethau nac ychwaith â'r cleifion a wasanaethir.
22. Buom yn cynnal arolwg o safbwyntiau'r staff fferyllol ynglŷn â'r strategaeth. Roedd y canlyniadau yn dangos bod 34 y cant o'r staff fferyllol naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf yr ymgynghorwyd â nhw ac y cawsant gyfle i gyfrannu i'r strategaeth; roedd hyn yn cymharu â 30 y cant drwy Gymru. Roedd yr arolwg yn dangos hefyd fod 40 y cant o'r staff fferyllol yn cytuno neu'n cytuno'n gryf 'fod gan y sefydliad strategaeth effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau', o gymharu â 66 ar gyfer Cymru.
23. Fel y disgrifir yn **Rhan 2** o'r adroddiad hwn, mae'r gwasanaethau rheoli meddyginiaethau o dan bwysau. Ar adeg pan fo'r staff ar sawl lefel yn ei chael yn anodd cwblhau eu tasgau creiddiol o fewn yr amser sydd ar gael, gellid dadlau bod llunio strategaeth yn flaenoriaeth isel. Yn ein barn ni, mae angen canfod amser i ddatblygu'n llawn yr ymagwedd strategol ar gyfer rheoli meddyginiaethau, fel y gellir dod o hyd i atebion hirdymor i'r pwysau presennol, a chael gwell canllaw er mwyn penderfynu pa wasanaethau y dylid eu blaenoriaethu a pha wasanaethau y dylid eu tynnu'n ôl pan fo'r pwysau'n arbennig o drwm.

## Proffil a dylanwad fferylliaeth o fewn y sefydliad ehangach

Mae proffil fferylliaeth yn gymharol uchel yn y ganolfan ganser, a dylai'r Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth sydd ar droed godi'r ymwybyddiaeth o faterion fferylliaeth yn uwch, ar bob lefel o fewn y sefydliad

24. Os yw'r tîm fferylliaeth i gael digon o amlygrwydd a dylanwad o fewn y sefydliad, dylai gael cynrychiolaeth ddigonol yn yr uwch-fforymau sy'n gwneud y penderfyniadau o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae gan dîm fferylliaeth Felindre well cynrychiolaeth yn yr uwch-bwyllgorau nag sydd gan dimau eraill yn y byrddau iechyd. Cynrychiolir y tîm fferylliaeth yn y rhan fwyaf o'r uwch-bwyllgorau sy'n gyfrifol am ansawdd a diogelwch, llywodraethu clinigol a rheoli risgiau. Cwm Taf oedd yr unig fwrdd iechyd lle'r oedd cynrychiolaeth i fferylliaeth ar y pwyllgor uchaf a oedd yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch. Nid oedd cynrychiolaeth gan yr un o dimau fferylliaeth y byrddau iechyd ar y pwyllgor uchaf gyda chyfrifoldeb am lywodraethu clinigol na rheoli risgiau.
25. Yn ystod ein harchwiliad dywedodd y staff wrthyf fod proffil fferylliaeth yn gymharol uchel yn y ganolfan ganser. Maint yr ysbyty yw un o'r ffactorau sy'n cyfrif am hyn, yn ogystal ag ymgysylltiad manwl y tîm â chemotherapi. roedd y staff a fu'n gweithio mewn sefydliadau eraill yn cyfeirio'n benodol at yr amlygrwydd uwch a roddid i fferylliaeth yn y ganolfan ganser.
26. Mae'r amlygrwydd a roddir i faterion fferyllol wedi codi yn sgil yr ystyriaeth o'r Adroddiad Blynyddol ar Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau gan Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, gall yr Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth sydd ar droed ddyrchafu proffil fferylliaeth hyd yn oed yn uwch. Ysgogwyd yr adolygiad gan yr Adran Fferylliaeth gyda chydysniad uwch-dîm rheoli'r ysbyty, er mwyn asesu priodoldeb y lefelau staffio presennol. Dichon y bydd cyfranogiad y Pennaeth Nyrso fel 'cyfaill beirniadol' i'r adolygiad yn sicrhau ei annibyniaeth ac yn ehangu'r ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu fferylliaeth. Bydd yn bwysig cyflwyno adroddiad ar lefel yr Ymddiriedolaeth am ganfyddiadau'r Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth.

- 
27. Dylai fod modd i'r timau fferylliaeth ddylanwadu ar gynllunio'r gwasanaethau sy'n ymwneud â meddyginiaethau. Wrth gyflwyno swyddi ymgynghorol, clinigau neu wasanaethau newydd, mae'n anochel yr effeithir ar y modd y cyflenwir y gwasanaeth fferylliaeth. Mae gan dîm fferylliaeth yr Ymddiriedolaeth ychydig mwy o fewnbwn i faterion o'r fath, o gymharu â thimau eraill ledled Cymru. Er nad yw tîm fferylliaeth yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud o gwbl â phenderfyniadau i benodi meddygon ymgynghorol newydd, mae'n cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau ynghylch cyflwyno gwasanaethau newydd. Pe bai'r Ymddiriedolaeth yn ystyried sefydlu clinig newydd neu ehangu clinig presennol, byddai'r tîm fferylliaeth yn cyfrannu drwy ddarparu gwybodaeth am gost cyffuriau ac am oblygiadau'r newid i'r gwasanaeth meddyginiaethau.

## Rheolaeth ariannol meddyginiaethau

Meddyginiaethau sy'n cyfrif am 70 y cant o'r gwariant ac eithrio cyflogau yn y ganolfan ganser, ond mae'r cynllun arbedion meddyginiaethau yn canolbwyntio ar un fenter yn unig

28. Mae rheolaeth a monitro ariannol yn arbennig o bwysig mewn perthynas â meddyginiaethau oherwydd y gwariant uchel gan GIG Cymru ar gyffuriau. Meddyginiaethau sy'n cyfrif am 70 y cant (bron £18 miliwn) o'r gwariant ac eithrio cyflogau gan Ganolfan Ganser Felindre.
29. Yn 2015-16 mae'r ganolfan ganser wedi gosod targed arbedion o £275,000 mewn perthynas â meddyginiaethau. Disgwylir i'r arbedion effeithlonrwydd hyn ddeilio o gontract fframwaith a roddir ar waith fesul cam i ddanfôn meddyginiaethau i gartrefi cleifion. Bwriedid gwneud yr arbedion hyn yn ystod blynyddoedd blaenorol, ond gohiriwyd gweithredu'r prosiect o ganlyniad i oedi cyn llunio'r contract fframwaith cenedlaethol terfynol. O ystyried maint y gwariant ar feddyginiaethau yn y ganolfan ganser, cawsom ein synnu nad oedd cynllun arbedion ehangach.
30. Wrth ymateb i'n harolwg, roedd 50 y cant o'r staff fferyllol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gosodiad 'Nid yw'r arbedion ariannol a wneir yn y gwasanaethau fferylliaeth yn effeithio ar y canlyniadau i gleifion', o gymharu â 24 y cant ledled Cymru. Mae'r canlyniad hwn yn dipyn o syndod yn absenoldeb cynllun arbedion eang mewn perthynas â meddyginiaethau.

## Ceisiadau am gyllid ar gyfer cleifion unigol

Mae pwyllgor ceisiadau cyllido cleifion unigol yr Ymddiriedolaeth yn ystyried mwy o geisiadau ac yn hawlio mwy o amser y staff fferyllol, o gymharu â chyrrff ieuchyd eraill yng Nghymru

31. Fel arfer, mae ceisiadau cyllido cleifion unigol (CCCUau) yn geisiadau gan glinigwyr sy'n dymuno i gorff ieuchyd gymeradwyo defnyddio meddyginiaethau nas cyllidir fel rheol gan y GIG. Mae angen i gyrrff ieuchyd fod â phrosesau cadarn a phaneli CCCU effeithiol i sicrhau y gwneir penderfyniadau priodol mewn perthynas â'r ceisiadau hyn. Mewn adroddiad ar gyfer Cymru gyfan yn Ebrill 2014, argymhellwyd bod paneli sy'n ymdrin â cheisiadau CCCU yn cynnwys o leiaf ddau aelod lleyg, ac y dylai ceisiadau gael eu sgrinio a'u llofnodi gan arweinydd clinigol neu bennaeth adran cyn cynnal cyfarfod.<sup>11</sup>
32. Yn yr Ymddiriedolaeth, mae'r Pwyllgor Ymgynghorol CCCU yn wahanol i'r paneli CCCU yn y byrddau ieuchyd. Mae'r pwyllgor yn sgrinio ceisiadau a wneir gan feddygon ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth, ac os tybir bod cais yn briodol, atgyfeirir y cais i'r bwrdd ieuchyd lle mae'r claf yn preswyllo.

---

<sup>11</sup> Y Grŵp Adolygu CCCU Cenedlaethol, **Review of the individual patient funding request process**, Ebrill 2014.

- 
- 33.** Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn wythnosol ac nid oes ganddo unrhyw aelodau lleyg. Gwneir gwaith paratoadol gan Weinyddwr Cyffuriau Cost Uchel y tîm fferylliaeth, a darperir cymorth clinigol y tu allan i'r cyfarfodydd gan y Prif Fferyllydd.
- 34.** Yn ystod 2014-15, bu Pwyllgor Ymgynghorol CCCU yr Ymddiriedolaeth yn ystyried 96 o geisiadau mewn perthynas â meddyginiaethau, sef nifer a oedd yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig o 60<sup>12</sup>. Mae'n debygol bod hyn i'w briodoli i'r nifer cymharol uchel o gyffuriau oncoleg a ddatblygir. Roedd yr amser a dreuliodd tîm fferylliaeth yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi ac yn mynychu'r cyfarfodydd hyn hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru (353 awr, o gymharu â'r cyfartaledd Cymreig o 193 awr).

---

<sup>12</sup> Y cyfartaledd Cymreig yw cyfartaledd 2013-14. Mae cyfartaledd Cymru yn diystyru Betsi Cadwaladr: nid y panel CCCU sy'n ystyried mwyafrif y ceisiadau yn PBC.

## Rhan 2

### Y gweithlu rheoli meddyginiaethau


Mae cyfranogiad y fferyllwyr yn y clinigau yn nodwedd bositif, ond mae'r tîm fferylliaeth yn cael anhawster i fodloni'r galw, a'r mewnbwn fferyllol yn y wardiau yn rhy anghyson

#### Pwysau gwaith

Mae'n amlwg bod y gweithlu rheoli meddyginiaethau yn teimlo ei fod o dan bwysau, a dylai'r Ymddiriedolaeth benderfynu yn awr ar ddull o reoli'r cyfyngiadau ar alluoedd, ac ystyried ffyrdd gwahanol o gyflenwi gwasanaethau

35. Yn ein gwaith ledled Cymru, y canfyddiadau cyffredinol a ddaeth i'r amlwg oedd fod y baich gwaith yn rhy fawr a nifer y staff yn rhy fach. Yn ystod ein gwaith maes yn yr Ymddiriedolaeth, roedd staff o bob disgyblaeth yn sôn am y pwysau ar y gwasanaeth fferylliaeth a'r anhawster a gâi i fodloni'r galw. Yn yr Ymddiriedolaeth, roedd 87 y cant o'r staff fferyllol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mae digon o staff fferyllol yn y sefydliad hwn i ganiatáu i mi wneud fy ngwaith yn briodol'. Mae hyn yn cymharu â 60 y cant ledled Cymru.
36. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos i ba raddau roedd y staff yn cytuno â'r gosodiad: 'Mae gennyf amser i gyflawni fy holl waith.'

**Arddangosyn 3: Roedd y staff fferyllol yn gyffredinol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gosodiad 'Mae gennyf amser i gyflawni fy holl waith', ac i raddau cyffelyb yng ngweddill Cymru**



Ffynhonnell: Arolwg o Staff Fferyllol gan Swyddfa Archwilio Cymru

- 
37. Dywedwyd wrthym mai cyfyngedig oedd yr amser a gâi uwch-aelodau o'r tîm fferylliaeth i fynychu cyfarfodydd, rheoli eu timau a chanolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau.
38. Dywedwyd wrthym hefyd am bwysau ar y gweithlu fel a ganlyn mewn perthynas â gwaith clinigol y tîm fferylliaeth yn y wardiau:
- Prinder amser yn gyffredinol i gwblhau tasgau yn y wardiau. Cofnodwyd digwyddiad yn ddiweddar gan y Prif Fferylllydd ar y system Datix, mewn perthynas â'r cynnydd ym maich gwaith aelod o'r staff.
  - Mae'r rotâu yn dynn hyd yn oed mewn amgylchiadau arferol, ond pan fo staff yn absennol o'u gwaith am unrhyw reswm, gall y pwysau ar y gweithlu fod yn llawer trymach.
  - Defnyddir amser gwerthfawr y technegwyr ar y wardiau yn ceisio cael gwybodaeth gan y sector gofal sylfaenol am feddyginiaethau presennol y cleifion. Trafodir y materion hyn ymhellach **ym mharagraffau 83 i 84**.
  - Gall cynnwys fferyllwyr fel presgripsiynwyr anfeddygol mewn clinigau cleifion allanol fod o fudd i'r cleifion a lleihau'r pwysau ar y clinigau prysur hyn. Fodd bynnag, mae'r clinigau'n amddifadu'r wardiau o'u hadnodd fferyllol
  - Pan fo'r pwysau'n drwm, tynnir yn ôl rai o'r gwasanethau fferylliaeth pwysig o'r wardiau, er mwyn cynnal y gwasanethau fferylliaeth creiddiol. Mae'r gwasanaethau a dynnir yn ôl yn cynnwys presgripsiynu meddyginiaethau yn y ward wrth ryddhau cleifion a rôl y technegwyr o reoli meddyginiaethau yn y wardiau. Roedd hyn yn peri rhwystredigaeth benodol i rai o'r staff.
39. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud nifer o newidiadau yn ei fferyllfa i geisio lleihau pwysau'r baich gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys dechrau defnyddio fesul cam ffurflenni WP10, sef presgripsiynau sy'n caniatáu i gleifion allanol gael eu meddyginiaethau o fferyllfeydd yn y gymuned yn hytrach nag o fferyllfa'r ysbyty. Newidiadau eraill oedd defnyddio'r syniadaeth ddarbodus 'Lean'<sup>13</sup> i symleiddio a chyflymu arferion gweithio, a'r penderfyniad i fynd â'r dasg o gyflenwi meddyginiaethau ar gyfer treialon clinigol oddi ar staff arferol y fferyllfa, a'i rhoi yn hytrach i'r Tîm Treialon Clinigol. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod y pwysau ar y gweithlu yn y fferyllfa yn parhau'n drwm, gyda'r staff yn cael trafferth i gyflawni eu swyddogaethau rheoli oherwydd y galwadau mynych i gyflenwi gwasanaethau rheng flaen ac anhawster i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant a datblygiad personol.
40. Clywsom gan y staff hefyd am y pwysau sydd ar y gweithlu yn yr uned aseptic. Dywedwyd wrthym nad oes digon o amser, oherwydd y cynnydd yn y galw, ar gyfer cynllunio a sganio'r gorwel. Dywedwyd hefyd, oherwydd bod yr uned wedi ei lleoli ar ddau lawr, fod amser yn cael ei wastraffu wrth i'r staff fynd i fyny ac i lawr y grisiau.
41. Daeth yr Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth mewnol i'r casgliad, os bydd fferylliaeth yn parhau i weithredu yn ei ffyrdd bresennol, y bydd 'ansawdd a diogelwch y gwasanaeth presennol yn dirywio, a Chanolfan Ganser Felindre mewn perygl o beidio â chydymffurfio â nifer o'r safonau rheoleiddiol a phroffesiynol'.
42. Mae **Arddangosyn 4** yn awgrymu rhai ffyrdd posibl y gallai'r Adran Fferylliaeth wneud gwell defnydd o'i hadnoddau. Dyfeisiwyd llawer o'r syniadau hyn gan yr Adran Fferylliaeth ei hunan. Nid argymhellion ffurfiol yw'r rhain, ac rydym yn cydnabod bod rhai o'r gweithredoedd yn fwy dichonadwy nag eraill, ond cyflwynir y syniadau yma rhai y gall yr Ymddiriedolaeth feddwl amdanynt ymhellach.

---

<sup>13</sup> Dull yw syniadaeth ddarbodus sy'n amcanu i wella'r gwerth a geir allan o unrhyw broses. Mae'n canolbwyntio ar fapio'r broses bresennol, ac yna canfod a dileu unrhyw wastraff. Mae'n ddull a ddefnyddir yn gyffredin mewn gweithgynhyrchu ond a ddefnyddir hefyd yn y gwasanaethau cyhoeddus.



Arddangosyn 4: Gall yr Ymddiriedolaeth ystyried nifer o wahanol opsiynau ar gyfer gwella'r modd y defnyddir yr adnoddau fferylliaeth

Gweithredoedd posibl	Rhwystrau
Lleihau'r baich gwaith sy'n gysylltiedig â labelu meddyginiaethau drwy brynu meddyginiaethau a dros-labelwyd gan uned ragbecynnu.	Y gost a diffyg lle i storio'r eitemau a brynid.
Prynu meddyginiaethau cemotherapi mewnwythiennol parod i ryddhau galluoedd y staff aseptic a fferyllol.	Y gost a diffyg lle i storio'r eitemau a brynid
Prynu robot fferyllol i baratoi meddyginiaethu. Byddai'n lleihau'r baich ar staff y fferyllfa ac yn osgoi gwallau dethol.	Diffyg lle yn y fferyllfa bresennol.
Yn nodweddiadol, mae ar gleifion angen chwe chylch o gemotherapi geneuol. Ar gyfer pob cylch mae'n ofynnol rhoi cwrs o feddyginiaeth. Gellid arbed adnodd pe bai modd cyflenwi mwy nag un cylch ar y tro.	Byddai rhaid i gleifion ddilyn cyfarwyddiadau cymhleth. Gellid gwastraffu meddyginiaethau pe bai presgripsiynau cleifion yn newid rhwng cylchoedd.
Adleoli gwasanaethau fel na fydd yr uned aseptic wedi ei rhannu rhwng dau lawr, a thrwy hynny osgoi'r angen i wasgaru'r staff drwy'r ddwy ran.	Y gost, diffyg lle, tarfu ar y gwasanaethau.
Gwasgaru'r baich gwaith dros oriau hwy, er mwyn gwastatáu'r copaon a'r cafnau gweithgarwch, a sicrhau bod yr adnodd yn cyfateb yn well i'r galw.	Risg o daenu'r gwasanaeth fferylliaeth yn rhy denau.
Gosod peiriant cyflenwi awtomatig yn lle'r storfa feddyginiaethau argyfwng bresennol. Mae'r Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth yn amcangyfrif y bydd hyn yn arbed 11 awr o amser fferyllol bob mis.	Dim. Mae hyn yn cael ei weithredu.
Dadansoddi natur y galwadau teleffon i'r adran fferylliaeth gyda golwg ar ddarparu gwell gwybodaeth ac atal y baich gwaith sy'n gysylltiedig ag ateb ymholiadau teleffon.	Yr amser a gymerai'r dadansoddiad.
Rhoi gwasanaethau cartref ar waith fesul cam (fel y crybwyllir <a href="#">ym mharagraff 29</a> ). Bydd y gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cemotherapi geneuol yng nghartrefi'r cleifion, ond mae posibilrwydd y gellid estyn hyn i gynnwys triniaeth fewnwythiennol. Dichon na fyddai hyn yn lleihau'r baich gwaith cyffredinol, ond byddai budd mewn symud rhywfaint o'r baich gwaith allan o'r adran fferylliaeth gyfyng a phrysus.	Hwyrach y byddai angen staff ychwanegol i reoli a gweinyddu'r contractau gyda darparwyr gwasanaethau cartref. Byddai rhai risgiau llywodraethu hefyd yn gysylltiedig â newid i'r model gwasanaeth hwn.

Ffynhonnell : Swyddfa Archwilio Cymru

- 43.** Roedd ein hadolygiad yn awgrymu bod modd defnyddio'r adnodd nyrsio mewn ffyrdd mwy effeithlon o ran rheoli meddyginiaethau. Rydym wedi nodi'r pwyntiau canlynol:
- Gan fod cloeau unigol ar y cypyrddau cyffuriau a osodwyd o'r newydd yn y ganolfan ganser, sylwyd ar rai o'r staff nyrsio yn treulio amser gwerthfawr yn chwilio am yr allweddi priodol er mwyn cael mynediad at y cyffuriau.

- 
- Dywedwyd wrthym fod yr amser nyrsio a neilltuir ar gyfer rowndiau gweinyddu cyffuriau yn cynyddu. Mae'n hanfodol bod digon o amser a sylw'n cael ei roi i'r prosesau risg-uchel ar y rowndiau cyffuriau. Fodd bynnag, hwyrach fod modd mapio'r gwahanol dasgau a gyflawnir ar y rowndiau cyffuriau gyda golwg ar arbed amser a gwella effeithlonrwydd.
  - Soniwyd wrthym hefyd am yr amser nyrsio gwerthfawr a dreulir yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'r cyffuriau rheoledig sydd mewn cypyrddau yn y wardiau. Ar un achlysur, treuliodd dwy uwch-nyrs 45 munud yn cynnal gwiriad o'r fath. Mae'n bwysig bod y cyffuriau hyn yn cael eu gwirio'n rheolaidd, ond hwyrach fod modd adolygu a symleiddio'r stoc a gedwir yn y cypyrddau cyffuriau rheoledig yn y wardiau, er mwyn lleihau'r amser a dreulir ar dasgau o'r fath.

## Niferoedd a chymysgedd sgiliau'r staff

Er bod yr Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth yn awgrymu bod angen rhagor o staff, mae'n bosibl bod y cyfrifiad yn tanddatgan maint yr adnodd sydd ei angen mewn gwirionedd

44. Dylai fod gan dimau fferylliaeth y cymysgedd sgiliau, yr hyfedredd a'r galluoedd priodol i reoli meddyginiaethau cleifion yn briodol, yn ogystal â darparu gwasanaethau fferylliaeth ehangach. Tua diwedd 2014, bu'r cyrff iechyd ledled Cymru yn cynnal ymarferiad i fapio eu timau fferylliaeth eu hunain.
45. Mae **Arddangosyn 5** yn tynnu sylw at rai o'r dangosyddion staffio o'r ymarferiad hwnnw ac nid yw'n syndod ei fod yn awgrymu bod cyfansoddiad y tîm fferylliaeth yn y ganolfan ganser yn dra gwahanol i gyfansoddiad y timau mewn ysbytai aciwt yng Nghymru. Roedd hyn i'w ddisgwyl oherwydd natur dra arbenigol y gwasanaethau yn Felindre a'r angen, o ganlyniad, am fferyllwyr sydd â sgiliau uwch. Mae nifer y fferyllwyr a thechnegwyr, a'u cost am bob diwrnod gwely llawn yn gymharol uchel hefyd yn Felindre. Mae'n anodd gwneud cymhariaeth ystyrion rhwng Felindre a'r byrddau iechyd ar sail y metrigau hyn, gan fod Felindre yn cyflenwi cymaint o'i gofal drwy'r Adran Cleifion Allanol, a nifer y diwrnodau gwely yn Felindre felly yn gymharol fach.<sup>14</sup>

---

<sup>14</sup> Defnyddiasom y data gweithgarwch ar welyau llawn dyddiol gan Ystadegau Cymru fel dangosydd o faich gwaith y tîm fferylliaeth

Arddangosyn 5: Mae'r proffil staffio ar gyfer Felindre yn wahanol i'r hyn a welir ar draws Cymru, ond mae'n anodd gwneud cymariaethau ystyrion oherwydd natur wahanol y gwasanaethau yn y ganolfan ganser

		Cyfartaledd Cymru	Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Niferoedd a chymysgedd sgiliau'r staff	Cyfanswm fferyllwyr a thechnegwyr mewn swydd (CALI)	148	26
	Cymhareb fferyllwyr i dechnegwyr	51:49	40:60
	Fferyllwyr a thechnegwyr (CALI) am bob 100,000 diwrnod gwely llawn	37	185
Costau staffio <sup>15</sup>	Cost gyfartalog am bob CALI: Fferyllydd	£63,600	£70,800
	Cost gyfartalog am bob CALI: Technegydd	£35,900	£36,700
	Fferyllydd a thechnegydd: cost am bob diwrnod gwely llawn	£18.68	£93.22

Ffynhonnell: Ymarferiad Mapio Adnodd gan dimau fferylliaeth ledled Cymru (2014), StatsCymru 'Gwelyau'r GIG yn ôl rhanbarth, sefydliad a safle' (2013-14). Mae'r data hyn yn cynnwys staff mewn ysbytai aciwt yn unig, ac mae'n dadansoddiad ni yn hepgor yr amser/adnodd a ddyrennir i weithgareddau fferylliaeth gofal sylfaenol a chymunedol. Ar yr adeg y mapiwyd yr adnodd roedd gan Felindre 10.5 CALI o fferyllwyr, 15.4 CALI o dechnegwyr a 3.7CALI o gynorthwywyr. Mae'r ffigurau ar gyfer Felindre yn cynnwys staff o'r Tîm Treialon Clinigol.

46. Yng Ngorffennaf 2015, roedd gan yr Ymddiriedolaeth dîm fferylliaeth a oedd yn cynnwys 8.2 cyfwerth amser llawn (CALI) o fferyllwyr, 11.8 CALI o dechnegwyr fferylliaeth a 3.7 CALI o swyddogion technegol cynorthwyol<sup>16</sup>. Awgrymodd yr Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth y byddai angen, er mwyn cyflenwi gwasanaethau fferylliaeth mewn modd a ystyrir yn ddiogel ac effeithiol, y byddai angen staff ychwanegol fel a ganlyn: 2.8 CALI o fferyllwyr, 1.4 CALI o dechnegwyr fferylliaeth and 1.9 CALI o swyddogion technegol cynorthwyol.
47. Er nad ydym wedi profi'r cyfrifiadau sydd yn Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth, credwn y gallai'r adolygiad fod yn tanddatgan maint yr adnodd fferylliaeth ychwanegol sydd ei angen. Mae'r adolygiad yn darparu manylion am y modd y defnyddir yr adnoddau fferylliaeth presennol; nid yw'n ystyried sut y **dylid** defnyddio'r adnodd. Nid yw'r adolygiad yn ystyried y model o wasanaethau y dylid ei ddarparu yn y dyfodol nac ychwaith yr adnodd y bydd ei angen er mwyn cyflenwi'r model hwnnw. Yn olaf, nid yw'r adolygiad yn meintioli'r cynnydd presennol yn y galw am wasanaethau fferylliaeth. Bwriedir ystyried y materion hyn yn ystod cam nesaf yr Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth mewnol.

<sup>15</sup> Mae'r costau gros yn seiliedig ar ganolbwynt pob band cyflog ac yn cynnwys lwfansau rota, blwydd-dal ac yswiriant gwladol. Mae'r gost am bob awr yn seiliedig ar gyfrifo cyfanswm CALI y fferyllwyr a thechnegwyr ym mhob band cyflog a lluosir y ffigurau hynny gyda'r gost gros fesul awr (gan ragdybio 37.5 awr yr wythnos am 52 wythnos y flwyddyn) ar ganolbwynt pob band, ac yna adio'r cyfansymiau ar gyfer yr holl fandiau.

<sup>16</sup> Ffynhonnell y data hyn oedd yr Adolygiad Galluoedd Fferylliaeth, Gorffennaf 2015. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys staff o'r Tîm Treialon Clinigol.

---

## Hyfforddi a datblygu

Mae'r gyfran o'r adnodd fferylliaeth a ddyrennir i hyfforddiant a datblygu yn llai na'r cyfartaledd Cymreig, ond roedd y meddygon a'r nyrsys yn gadarnhaol ynglŷn â'u gallu i ddiweddarau ei sgiliau o ran meddyginiaethau

48. Yn ein harolwg, dywedodd 33 o staff fferyllol yr Ymddiriedolaeth eu bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gosodiad 'Rwyf yn cael digon o hyfforddiant, dysgu a datblygu', sef ffigur tebyg iawn i'r 34 y cant ar gyfer gweddill Cymru. Mae data o'r ymarferiad mapio adnodd yn dangos bod staff fferyllol yn yr Ymddiriedolaeth wedi treulio, ar gyfartaledd, bump y cant o'u hamser yn cael ac yn cyflenwi hyfforddiant, addysg a datblygiad personol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cymharu â naw y cant ledled Cymru<sup>17</sup>.
49. Yn y Cynllun Sicrhau Ansawdd<sup>18</sup> ar gyfer y GIG yng Nghymru dywedir y dylai byrddau iechyd hyfforddi 25 y cant o'u staff mewn methodolegau gwella ansawdd erbyn diwedd Mawrth 2014. Ar draws gweddill Cymru, roedd y gyfran o'r staff fferyllol gofal eilaidd a oedd wedi eu hyfforddi o leiaf i'r lefel efydd yn y fethodoleg Gwella Ansawdd gyda'n Gilydd a arweinir gan 1000 o Fwydau a Mwy yn 27 y cant<sup>19</sup>, ac yn amrywio rhwng 10 a 67 y cant. Yn yr Ymddiriedolaeth, mae 77 y cant o'r staff fferyllol gofal eilaidd wedi eu hyfforddi i'r lefel efydd o leiaf, ffigur sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru.
50. Gall hyfforddiant ar gyfer staff meddygol a nyrsio fod yn ffactor llwyddiant allweddol a chyfrannu at ymgysylltu amlddisgyblaethol da â rheolaeth meddyginiaethau. Yn y **Safonau Proffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Fferyllol mewn Ysbytai** (y Safonau) dywedir y dylai'r tîm fferylliaeth gynorthwyo gyda hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant rheolaidd i'r staff clinigol. Ledled Cymru, mae byrddau iechyd yn cyllido ar gyfartaledd 0.7 CALI o staff fferyllol i gyflenwi hyfforddiant i'r staff meddygol. Yn yr Ymddiriedolaeth ni chyllidir unrhyw staff ar gyfer y rôl hon.
51. Oherwydd eu profiad cymharol gyfyng, y staff meddygol iau yw un o'r grwpiau sydd arnynt angen hyfforddiant penodol mewn rheoli meddyginiaethau. Yn yr Ymddiriedolaeth mae'r tîm fferylliaeth yn ymwneud â hyfforddiant sefydlu i feddygon iau. Mae'r sesiynau hyn yn ymdrin â defnyddio gwrthfotigau, thromboproffylaxis a chemotherapi. Mae fferyllwyr hefyd yn darparu cymorth parhaus i feddygon iau drwy'r rhyngweithio yn y wardiau.
52. Mae'r hyfforddiant meddyginiaethau ar gyfer nyrsys yn cynnwys pob aelod newydd o'r staff, waeth pa bryd y cymhwysodd, ac ar ffurf diwrnod cymhwyso rheoli meddyginiaethau. Darperir y diwrnod hyfforddi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'n ofynnol hefyd fod y staff yn cwblhau llyfrau gwaith ar weinyddu meddyginiaethau geneuol a mewnwthyennol. Mae asesiad cymhwysedd yn ofynnol ar gyfer staff sy'n defnyddio gyrwyr chwistrell.
53. Yn ein harolwg, roedd 57 y cant o'r meddygon a 56 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mater hawdd i mi yw cadw fy sgiliau rheoli meddyginiaethau yn gyfoes.' Rodd hyn yn cymharu â 35 y cant o feddygon a 47 y cant o nyrsys ledled Cymru.

---

<sup>17</sup> Data gweithgarwch Mapio Adnodd mewn perthynas â grwpiau staff fferyllwyr a thechnegwyr ledled y sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd.

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, **Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru 2012-2016**, 2012

<sup>19</sup> Mae'r cyfrifiad o gyfartaledd Cymru yn diystyru ymateb anghyflawn a gafwyd gan Hywel Dda.

- 
54. Mae gwahaniaeth barn rhwng meddygon a staff fferyllol ynghylch y rheolaethau a sefydlwyd i fonitro presgripsiynwyr meddygol. Yn ein harolwg, roedd 17 y cant o'r staff fferyllol, 65 y cant o'r meddygon a 37 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu rheolaethau da ar gyfer monitro perfformiad presgripsiynwyr meddygol'. Mae hyn yn cymharu â 23 y cant o'r staff fferyllol, 29 y cant o'r meddygon a 32 y cant o'r nyrsys ledled Cymru.

## Gwasanaethau fferylliaeth glinigol

Mae'r berthynas rhwng y fferyllwyr a staff eraill yn y wardiau yn dda, ond nid cystal ag ydyw mewn byrddau iechyd eraill, hwyrach oherwydd anghysondeb cyfranogiad y fferyllwyr yn y wardiau

55. Mae 'fferylliaeth glinigol' yn cyfeirio at weithgarwch y timau fferylliaeth yn y wardiau a lleoliadau clinigau. Mae gweithgarwch o'r fath yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â chleifion, cynghori gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill a chymryd rhan lawn yn y dull 'tîm amlddisgyblaethol' o reoli meddyginiaethau pobl. Yn y Safonau, dywedir y dylai fferyllwyr gael eu hintegreiddio yn y timau clinigol a darparu gofal clinigol diogel a phriodol yn uniongyrchol i'r cleifion.
56. Yn yr ymarferiad mapio adnodd fferylliaeth GIG Cymru, a gynhaliwyd ledled Cymru tua diwedd 2014, dangoswyd bod fferyllwyr a thechnegwyr nodweddiadol yr Ymddiriedolaeth yn treulio naw y cant o'u hamser yn cynorthwyo wardiau a chlinigau yn uniongyrchol. Er bod hyn yn is na'r cyfartaledd o 32 y cant ledled Cymru<sup>20</sup>, rydym yn cydnabod mai enghraifft yw hon o'r modd y mae'r model gwasanaethau gwahanol yn Felindre yn gwneud cymharu â sefydliadau eraill yng Nghymru yn arbennig o anodd.
57. Mae **Arddangosyn 6** yn crynhoi rhai o'r data allweddol a gasglwyd yn ein hadolygiad o fferylliaeth glinigol mewn tair o'r wardiau yng Nghanolfan Ganser Felindre (rhoddir manylion am y wardiau hyn yn **Atodiad 1**). Arddangosir data ynddo hefyd o'n harolygon staff a'n harchwiliad ehangach, ynghlŷn â pherthnasau a gwasanaethau fferylliaeth glinigol yn y wardiau.

---

<sup>20</sup> Data am weithgarwch Mapio Adnodd mewn perthynas â grwpiau staff fferyllol a thechnegwyr ar draws y sectorau sylfaenol ac eilaidd.

## Arddangosyn 6: Cymysg yw perfformiad yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â gwasanaethau fferylliaeth glinigol

Dangosydd	Felindre	Cymru	Sylwadau
% o'r staff fferyllol a ddywedodd bod y berthynas â'r staff meddygol yn dda neu'n rhagorol	64%	77%	Mae perthynas dda rhwng y staff fferyllol, meddygol a nyrsio yn hanfodol ar gyfer dull amlddisgyblaethol effeithiol o reoli meddyginiaethau. Roedd 96 y cant o'r staff meddygol yn cytuno bod y berthynas â fferylliaeth yn dda neu'n rhagorol.
% o'r staff fferyllol a ddywedodd bod y berthynas â'r staff nyrsio yn dda neu'n rhagorol	76%	88%	Roedd 96 y cant o'r staff nyrsio yn cytuno â'r farn hon. Soniwyd wrthym droeon am y berthynas bositif yn ystod ein hymweliadau ag ysbytai
Wardiau sydd â fferylllydd enwebedig	1 o 3 ward	91%	Gall dyrannu fferyllwyr a thechnegwyr i wardiau penodol helpu i sicrhau perthynas gwaith dda. Un ward yn unig yn yr Ymddiriedolaeth sydd â fferylllydd enwebedig.
Wardiau sydd â thechnegydd enwebedig	Pob ward	50%	Mae gan bob ward dechnegydd enwebedig. Ledled Cymru, mae gan y mwyafrif o'r wardiau fferylllydd enwebedig wedi ei dyrannu iddynt, ac mae gan eu hanner dechnegydd enwebedig
Wardiau heb wasanaeth fferylllydd sy'n ymweld	Dim	11%	Os nad oes gwasanaeth sy'n ymweld â'r ward yn rheolaidd gall awgrymu bod angen sefydlu gwell cysylltiadau rhwng fferylliaeth a'r timau yn y wardiau.
Wardiau sydd â gwasanaeth ymweld saith-diwrnod	Dim	5%	Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymharu'n dda â gweddill Cymru. Mae pob ward yn cael gwasanaeth ymweld chwe-diwrnod a chymorth ar alwad ar ddyddiau Sul.
% o argymhellion y tîm fferylliaeth a arweiniodd at newidiadau (o'r adolygiad fferylliaeth glinigol)	92%	79%	Rydym wedi edrych ar yr argymhellion a wnaed gan dimau fferylliaeth ynglŷn â'r mathau a dosau o gyffuriau, ac wedi cyfrifo'r gyfran o'r argymhellion y gweithredwyd amynt.
% o'r staff fferyllol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y gallant ddylanwadu ar arferion presgripsiynu meddygon a nyrsys (o'r arolwg staff)	40%	68%	Os yw'r staff fferyllol yn analluog i ddylanwadu ar bresgripsiynwyr, mae hynny'n awgrymu y dylid cryfhau'r berthynas rhyngddynt.


Ffynhonnell: Adolygiad Fferylliaeth Glinigol, arolygon staff, Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Creiddiol.

**58.** Mae ein harchwiliad yn awgrymu bod lle i wella'r mewnbwn fferyllol yn y wardiau .  
Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Fel y dengys yr arddangosyn uchod, un yn unig o'r wardiau sydd â fferyllwydd enwebedig, er bod gan 91 y cant o'r wardiau ledled Cymru fferyllwyr enwebedig.
- Dywedwyd wrthym y gallai hyd at bedwar fferyllwydd gwahanol ddarparu gwasanaethau fferylliaeth mewn un ward yn ystod un wythnos.
- Mae hunan-asesiad yr Ymddiriedolaeth gyferbyn â'r Safonau yn cydnabod yr anghysondeb ar lefel y wardiau, gan ddweud bod 'cymysgedd o wahanol fferyllwyr/ technegwyr fferyllol yn darparu ar gyfer yr un ward, weithiau ar sail ddyddiol'. Yn yr hunan-asesiad, cynigir y dylid adolygu'r rotâu er mwyn canfod a ellir darparu gwasanaeth mwy cyson.
- Mewn cyfweiliadau, dywedodd staff y gall y diffyg dilyniant yn y mewnbwn fferyllol yn y wardiau achosi aneffeithlonrwydd a chodi cwestiynau ynglŷn â diogelwch. Dywedasant y gall newid fferyllwyr yn aml ei gwneud yn anodd i fferyllwydd ymgyswrtu'n ddigon buan ag anghenion pob claf unigol a'r risgiau sy'n ei wynebu.
- Dywedwyd wrthym hefyd, heb y parhad y byddai fferyllwydd enwebedig yn ei ddarparu, hwyrach na fyddai staff y ward yn gwybod pwy fyddai'r person gorau i gysylltu ag ef pe bai ganddynt ymholiadau ynglŷn a meddyginiaethau. Mae ymholiadau o'r fath gan staff y wardiau yn aml yn cael eu cyfeirio at y Prif Fferyllwydd yn gyntaf oll. Mae cyfeirio materion o'r fath i'r lefel honno yn cyfyngu ar gapasiti'r Prif Fferyllwydd ac weithiau'n peri nad yw fferyllwyr ward yn cael gwybod am faterion clinigol sy'n codi yn y wardiau.
- Gall y diffyg fferyllwyr enwebedig yn y wardiau olygu mai anghyson yw'r gefnogaeth sydd ar gael i dechnegwyr sy'n ymgymryd â gwaith rheoli meddyginiaethau yn y wardiau.

59. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos bod yr amser cyfartalog a dreuliodd y timau fferylliaeth yn y ward fesul ymweliad, yn ystod ein hadolygiad fferylliaeth glinigol, tua'r cyfartaledd a welid ledled Cymru. Roedd nifer y cleifion a adolygwyd fesul awr o'r ymweliad hefyd yn debyg i'r cyfartaledd Cymreig, ym mhob un o'r tair.

**Arddangosyn 7: Cymhariaeth ledled Cymru o'r amser a dreuliodd timau fferylliaeth yn y wardiau fesul ymweliad, ac o'r nifer o gleifion a adolygwyd ganddynt fesul awr**




Ffynhonnell: Adolygiad Fferylliaeth Glinigol Swyddfa Archwilio Cymru

60. Mae **Arddangosyn 8** yn dangos manylion baich gwaith y fferyllwyr a thechnegwyr mewn perthynas â chyflenwi meddyginiaethau yn ystod ein hymweliadau â'r sampl o wardiau. Buom yn cofnodi tri math o gyflenwi: cyflenwi meddyginiaethau i gleifion mewnol; cyflenwi meddyginiaethau 'i fynd allan' pan fo'r cleifion i gael eu rhyddhau; a chyflenwi systemau monitro dosau (SMDau), sef blychau gydag adrannau ar wahân i helpu'r cleifion i gofio pa feddyginiaethu i'w cymryd nesaf. Dangosodd ein

hadolygiad fferylliaeth glinigol fod cyflenwi meddyginiaethau i gleifion mewnol, yn cynrychioli cyfran o faich gwaith y tîm fferylliaeth a oedd yn fwy na'r cyfartaledd Cymreig.

**Arddangosyn 8: Yn Felindre, mae cyflenwi meddyginiaethau i gleifion mewnol yn cynrychioli cyfran fwy o faich gwaith y tîm fferylliaeth, nag ydyw yng ngweddill Cymru**



Ffynhonnell: Adolygiad Fferylliaeth Glinigol Swyddfa Archwilio Cymru (ymweliad ward)

61. Mae **Arddangosyn 8** yn dangos na chyflenwyd unrhyw SMDau i gleifion yn Felindre. Nid yw'r fferyllfa'n paratoi SMDau oherwydd diffyg cyfleusterau ac adnoddau. Pan fydd angen SMD ar un o'r cleifion bydd meddyg yn y ward yn ysgrifennu'r presgripsiwn a'r tîm fferylliaeth wedyn yn cysylltu â fferyllfa gymunedol y claf i drefnu i gyflenwi SMD iddo ar ôl ei ryddhau. Mae hunan-asesiad yr Ymddiriedolaeth gyferbyn â'r Safonau yn cydnabod bod angen symleiddio a chyflymu'r broses o gyflenwi SMDau i gleifion.
62. Mae'r rowndiau yn y ward yn un o'r ffyrdd y gall y staff fferyllol gydweithio'n glòs gyda gweddill y tîm amlddisgyblaethol er mwyn cyfrannu i ofal y cleifion. Mae ein canlyniadau ledled Cymru yn awgrymu bod modd i'r timau fferylliaeth gymryd rhan yn amlach yn rowndiau hyn, gan mai un y cant yn unig o'r 673 o ymweliadau a gofnodwyd yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol a wnaed fel rhan o rowndiau ward. Roedd ein harolwg yn dangos gwahaniaethau barn ynghylch y gosodiad: 'Mae staff fferylliaeth glinigol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn rowndiau ward amlddisgyblaethol'. Roedd deg y cant o'r staff fferyllol, 65 y cant o'r meddygon 23 y cant o'r nyrsys naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.
63. Mae **Arddangosyn 9** yn dangos safbwyntiau'r staff fferyllol ynghylch sut y gall eu tîm fod yn fwy effeithiol, ac yn cymharu eu safbwyntiau â safbwyntiau meddygon a nyrsys. Er bod y staff fferyllol a nyrsio yn rhoi'r flaenoriaeth i wella parhad/dilyniant gan staff fferylliaeth yn y wardiau, dywedodd y staff meddygol mai gwella'r prosesau rhyddhau ddylai gael y flaenoriaeth uchaf.



## Arddangosyn 9: Safbwyntiau'r staff ar y modd y dylid gwneud y tîm fferylliaeth yn fwy effeithiol

Blaenoriaeth	Barn y staff fferyllol	Barn y meddygon	Barn y nyrsys
1 (Uchaf)	Gwella parhad/dilyniant y staff fferylliaeth sy'n cynorthwyo ward/cleifion.	Gwella/ sefydlu prosesau i gynorthwyo rhyddhau.	Gwella parhad/dilyniant y staff fferylliaeth sy'n cynorthwyo ward/cleifion.
2	Cynyddu'r amser a dreulir yn y wardiau.	Cymryd rhan mewn rowndiau ward ar ôl derbyn.	Gwella/ sefydlu prosesau i gynorthwyo rhyddhau.
3	Gwella/ sefydlu prosesau i gynorthwyo rhyddhau.	Gwella parhad/dilyniant y staff fferylliaeth sy'n cynorthwyo ward/cleifion.	Cymryd rhan mewn rowndiau ward ar ôl derbyn.
4	Cymryd rhan mewn rowndiau ward ar ôl derbyn.	Cynyddu'r amser a dreulir yn y wardiau.	Cynyddu'r amser a dreulir yn y wardiau.
5	Newid amseriad yr ymweliadau rheolaidd â wardiau.	Newid amseriad yr ymweliadau rheolaidd â wardiau.	Gwella/sefydlu gwasanaeth ar-alwad.
6	Gwella/sefydlu gwasanaeth ar-alwad.	Gwella/sefydlu gwasanaeth ar-alwad.	Newid amseriad yr ymweliadau rheolaidd â wardiau.

Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru o Staff Fferyllol a Staff Meddygol

## Oriau agor, a mynediad at y gweithlu fferyllol

Dywedodd meddygon a nyrsys wrthym fod gwasanethau fferylliaeth ar gael iddynt yn gyffredinol er bod oriau agor y fferyllfa ychydig yn llai na'r cyfartaledd

64. Dylai gwasanaethau fferylliaeth fod ar gael i'r staff gofal iechyd ar yr adegau pan fo'u hangen fwyaf. Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol wedi tynnu sylw at broblemau gydag argaeledd gwasanaethau fferylliaeth y tu allan i'r oriau gwaith arferol. Yn ôl y Gymdeithas, gall argaeledd cyfyngedig gwasanethau fferylliaeth mewn ysbytai, yn enwedig ar benwythnosau, arwain at hepgor dosau a chamgymeriadau presgripsiynu, methiant i gysoni meddyginiaethau, ac oedi hir cyn darparu meddyginiaethau wrth ryddhau<sup>21</sup>.
65. Mae **Arddangosyn 10** yn dangos oriau agor gwasanaeth fferylliaeth yr Ymddiriedolaeth o gymharu â'r oriau cyfartalog ledled Cymru. Yn ychwanegol at yr oriau a ddangosir yn y tabl, mae tîm fferylliaeth yr Ymddiriedolaeth ar gael ar alwad drwy gydol yr amser, fel sy'n wir hefyd am bob corff iechyd arall yng Nghymru.

<sup>21</sup> Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, **Seven Day Services in Hospital Pharmacy: Giving patients the care they deserve**, 2014

**Arddangosyn 10: Mae oriau agor gwasanaethau fferylliaeth Felindre yn is na'r cyfartaledd ledled Cymru**

Ysbyty	Cyfanswm nifer yr oriau agor ar gyfer damweiniau a brys / cleifion allanol		Cyfanswm nifer yr oriau agor i ddarparu gwasanaethau clinigol i'r wardiau	
	Llun-Gwe	Sad-Sul	Llun-Gwe	Sad-Sul
Felindre	40.6	3	40.6	3

Ffynhonnell: Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Creiddiol Swyddfa Archwilio Cymru

66. Mae **Arddangosyn 11** yn dangos canlyniadau ein harolwg o'r staff meddygol a nyrsio, o ran hygyrchedd ac ymatebolrwydd y gwasanaethau.

**Arddangosyn 11: Roedd y staff meddygol a nyrsio yn Felindre yn gyffredinol yn fwy positif na gweddill Cymru ynglŷn â hygyrchedd ac ymatebolrwydd y tîm fferylliaeth**

	Felindre	Cymru
'Mae'n hawdd cysylltu â'r tîm fferylliaeth yn ystod oriau gwaith arferol'		
% o'r staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	100%	85%
% o'r staff nyrsio a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	96%	91%
'Mae'n hawdd cysylltu â'r tîm fferylliaeth <u>y tu allan i oriau gwaith arferol</u> '		
% o'r staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	61%	30%
% o'r staff nyrsio a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	66%	52%
'Mae'r tîm fferylliaeth yn ymateb mewn amseroedd rhesymol i'm ceisiadau yn ystod oriau gwaith arferol'		
% o'r staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	95%	81%
% o'r staff nyrsio a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	80%	83%
'Mae'r tîm fferylliaeth yn ymateb mewn amseroedd rhesymol i'm ceisiadau <u>y tu allan i oriau gwaith arferol</u> '		
% o'r staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	67%	29%
% o'r staff nyrsio a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf	59%	51%

Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru o'r Staff Meddygol a Nyrsio.

67. Yn ystod ein gwaith maes dywedodd staff meddygol a nyrsio wrthym fod mynediad i'r gwasanaeth fferylliaeth yn dda yn ystod oriau gwaith arferol. Clywsom ei bod yn hawdd cysylltu â'r staff fferylliaeth ar y teleffon neu'r system blipio, a'u bod bob amser yn ymatebol a chymwynasgar. Dywedodd y staff nyrsio a meddygol hefyd fod y trefniadau y tu allan i oriau, ar gyfer fferylllydd ar alwad a storfa

---

meddyginiaethau argyfwng, yn gweithio'n dda, er mai yn anaml y'u defnyddid. Dywedodd nifer o'r staff y byddai'n fuddiol pe bai'r staff fferyllol yn cyflenwi meddyginiaethau yn rheolaidd ar gyfer rhyddhau ar ddyddiau Sul ac ar ôl 4.30 pm yn ystod yr wythnos.

# Rhan 3

---

## Cyfleusterau rheoli meddyginiaethau

Mae cyfleusterau'r fferyllfa yn gyfyng, ac nid ydynt yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion allweddol. Mae rhai materion yn parhau heb eu datrys ynglŷn â storio meddyginiaethau yn y fferyllfa ac ar y wardiau

## Cydymffurfiaeth â'r gofynion allweddol ar gyfer cyfleusterau fferyllfa

Mae cyfleusterau'r fferyllfa yn gyfyng, ac ni fodlonir pob un o'r gofynion allweddol. Mae'r adborth gan gleifion yn awgrymu nad yw lleoliad y fferyllfa yn ddelfrydol a bod lle i wella'r diogelwch ffiniol

68. Yn ystod ein hymweliad â'r adran fferyllfa yng Nghanolfan Ganser Felindre, daeth yn amlwg pa mor gyfyng yw'r amodau gwaith i'r staff fferyllol. Mae'r ddsbarthfa a'r man storio deunyddiau fferyllol yn fach, a hynny'n cael ei gydnabod yng nghofrestr risgiau'r Ymddiriedolaeth.
69. Mae Nodyn Adeilad Iechyd Cymru<sup>22</sup> yn disgrifio gofynion allweddol dyluniad, cynllun a chyfleusterau fferyllfeydd mewn ysbytai. Yn y tabl isod dangosir y gofynion mewn llythrennau italig a dangosir hefyd a yw cyfleusterau yn fferyllfa Canolfan Ganser Felindre yn cydymffurfio () , yn cydymffurfio'n rhannol () , ynteu ddim yn cydymffurfio () .

### Canfyddiadau

#### Lleoliad

A yw'r fferyllfa ar y llawr daear gyda mynediad iddi o'r prif goridorau/ llwybrau cylchredeg?

- Mae'r fferyllfa ar y llawr daear, ond cryn bellter i ffwrdd o'r adran cleifion allanol. Roedd yr adborth gan gleifion yn cyfeirio at y pellter y mae'n rhaid ei gerdded i gyrraedd y fferyllfa . Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried agor is-fferyllfa yn yr adran cleifion allanol.

#### Diogelwch ffiniol

A yw mynediad i'r fferyllfa wedi ei reoli'n llym gan ddefnyddio cardiau allwedd neu ddull cyffelyb?

- Ceir mynediad i'r fferyllfa drwy ddefnyddio system PIN electronig yn y fynedfa i goridor y fferyllfa. Soniwyd wrthym am un achlysur pan fu rhywun o'r cyhoedd, a oedd yn aros yn arhosfa'r fferyllfa, yn gwyllo aelod o'r staff yn mewngofnodi'r cod PIN ac wedyn yn defnyddio'r cod ei hunan i gael mynediad i goridor y fferyllfa. Soniwyd wrthym hefyd am enghreifftiau o wirfoddolwyr yn cael mynediad i'r coridor yn amhriodol. Gwelsom fod y drysau dwbl o'r storfa gyffredinol i'r tu allan i'r ysbyty yn caei eu gadael yn agored. Mae hyn yn achosi risg diogelwch.

---

<sup>22</sup> Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, **Pharmacy and radiopharmacy facilities, Welsh Health Building Note WHBN 14-01**, 2014

---

### Mannau storio a thymheredd

A oedd pob eitem yn cael ei storio uwchben lefel y llawr?

- Sylwyd bod blychau ar y llawr mewn man storio yn y fferyllfa, oherwydd, mae'n ymddangos, diffyg lle yn unman arall.

A oes trefniadau da i reoli'r tymheredd o dan 25 gradd, yn enwedig mewn mannau a ddefnyddir i storio eitemau swmpus?

- Defnyddir cyflyrwr aer yn storfa'r fferyllfa, ond nid yn y prif fan storio.

### Cyffuriau a reolir

A oes storfa ar wahân, gyda chlo a larymau ar gyfer cyffuriau a reolir?

- Mae gan y ddosbarthfa gwpwrdd ar wahân gyda chlo arno ar gyfer cyffuriau rheoledig. Cedwir yr allwedd gan y fferylllydd yn y ddosbarthfa. Nid oes larwm ar y cwpwrdd ond mae larwm yn yr adran fferylliaeth y tu allan i oriau gwaith.

### Storfa argyfwng ar gyfer meddyginiaethau

A oes storfa benodol lle gellir cael gafael ar feddyginiaethau pan nad oes staff yn y fferyllfa?

- Cwpwrdd pren yng nghoridor y fferyllfa yw'r storfa argyfwng, ond bydd peiriant cyflenwi awtomatig sydd eisoes wedi ei osod, yn cymryd lle'r storfa argyfwng maes o law..

A oes system eglur ar gyfer cofnodi pa eitemau sydd wedi'u cymryd o'r storfa argyfwng?

- Mae'r system bresennol yn dibynnu ar lenwi ffurflen gan y staff nyrsio. Nid oedd manylion y claf bob amser yn cael eu cofnodi'n llawn, ond bydd y peiriant cyflenwi newydd y sicrhau trywydd archwilio manylach.

### Y ddosbarthfa

A yw lliw'r meinciau a'r wynebau gweithio yn y ddosbarthfa yn gwrthgyferbynnu â labeli gwyn y meddyginiaethau?

- Lliw gwyrdd brych sydd i'r wynebau gweithio yn y ddosbarthfa.

A oes gan y fferyllfa gyfleusterau golchi dwylo pwrpasol?

- Mae yno sinc, ond ni ddefnyddir hi ar gyfer golchi dwylo yn unig, defnyddir hi hefyd i baratoi diodydd.

Ffynhonnell: Arsylwadau gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn fferyllfeydd ysbytai

## Paratoi aseptigion a meddyginiaethau chwistrelladwy

Mae gwaith ar droed i gywiro diffygion yn yr uned aseptig ac, fel yng ngweddill Cymru, nid yw'r modd y paratuir meddyginiaethau chwistrelladwy yn y wardiau yn cael ei archwilio'n rheolaidd

- Unedau diheintiedig yw cyfleusterau aseptig, a ddefnyddir i baratoi meddyginiaethau risg-uchel megis chwistrelliadau cemotherapi, bwyd mewnwythiennol i fabanod cynamserol a rhai gwrthfotigion. Archwiliwyd yr uned aseptig yng Nghanolfan Ganser Felindre ddiwethaf gan Fferylllydd Arbenigol Sicrwydd Ansawdd Fferyllol Cymru yn Chwefror 2014. Yn yr adroddiad ni thynnwyd sylw at unrhyw ddiffygion critigol, ond nodwyd rhai diffygion mawr yr oedd gofyn rhoi sylw iddynt o fewn tri mis. Y canlynol oedd rhai o'r materion y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad:

- 
- dim arweinydd sicrwydd ansawdd annibynnol ar y safle yn Felindre;
  - rhwd yn amlwg ar baneli golau yn yr ystafelloedd arunigo;
  - angen dwy-lanhau'r llawr finyl mewn rhannau o'r ystafell arunigo lle mae'r traffig yn uchel;
  - arferion pentyrru hambyrddau yn annïogel;
  - prinder lle yn rhwystro gwahanu prosesau cyn- ac ôl-gwirio; and
  - cedwid ffiolau a ddefnyddiwyd yn rhannol ar gyfer eu defnyddio drachefn yn ddiweddarach yn y dydd, ond ni chaent eu storio mewn amgylchedd digonol.
71. Ystyriwyd yr adroddiad ar yr uned aseptig gan y Prif Fferyllydd a chyflwynwyd ef i Uwch-dîm Rheoli'r ganolfan ganser. Mae'r tîm aseptig yn monitro'r gweithredu yn fisol gyferbyn â'r cynllun gwella, ond yn cydnabod yr hoffai weld cyflymach cynnydd mewn rhai meysydd.
72. Paratoi rhai meddyginiaethau chwistrelladwy yn y wardiau yn hytrach nag yn yr uned aseptig. Dylai'r prosesau paratoi hyn fod yn destun archwiliadau blynyddol, ond cawsom mai'n anaml, ledled Cymru, y cynhelir archwiliadau o'r fath.<sup>23</sup> Yn ystod ein hymweliadau â'r wardiau, nid oedd y staff yn ymwybodol o unrhyw archwiliadau neu asesiadau risg mewn perthynas â pharatoi meddyginiaethau chwistrelladwy. Fodd bynnag, er bod yr Ymddiriedolaeth wedi dweud wrthym nad oedd unrhyw wardiau wedi cynnal archwiliad o'r arferion aseptig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd hefyd fod asesiad risg wedi ei sefydlu ym mhob un o'r tair ward.

## Cyfleusterau ar gyfer storio meddyginiaethau yn y wardiau

Dylid gwneud rhagor o waith i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel yn y wardiau a sicrhau yr un pryd eu bod ar gael yn hwylus, heb oedi diangen

73. Yn Chwefror 2014, archwiliwyd yr Uned Cymorth Gweithredol yn y ganolfan ganser gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a thynnwyd sylw at rai materion ynglŷn â diogelwch a storio meddyginiaethau.<sup>24</sup> Cyfeiriwyd at risgiau o fynediad posibl gan bersonau diawdurdod at feddyginiaethau, oherwydd nad oedd yr oergell na'r cypyrddau cyffuriau wedi eu cloi.
74. Yn dilyn yr adroddiad **Ymddiried mewn Gofal**, gwnaed gwiriadau dirybudd ledled Cymru ar storio meddyginiaethau yn ddiogel mewn wardiau. Yn yr Ymddiriedolaeth, cynhaliwyd y gwiriadau hyn ym Mehefin 2014, a chanfuwyd y canlynol:
- Yr Uned Cymorth Gweithredol – Adroddai'r cleifion eu bod yn cael eu meddyginiaethau ar yr adegau priodol. Sylwyd bod y staff yn dosbarthu meddyginiaethau yn unol â'r safonau proffesiynol.
  - Y Ward ar y Llawr Cyntaf – roedd meddyginiaethau dan glo yn ddiogel yng nghypryddau personol y cleifion, ond nid oedd yr ystafell driniaeth na'r oergell gyffuriau wedi eu cloi. Sylwyd bod y staff yn dosbarthu meddyginiaethau yn unol â'r safonau proffesiynol.
  - Yr Uned Cemotherapi Cleifion Mewnol – Roedd y cleifion i gyd yn gwybod pa feddyginiaethau roeddent yn eu cymryd, a phob claf yn gwisgo band adnabod gyda manylion eglur arno. Roedd cypyrddau cyffuriau'r cleifion eu hunain yn cael eu defnyddio a'r drefn honno'n gweithio'n effeithiol.

---

<sup>23</sup> Yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, **Rhybudd diogelwch cleifion 20**, 28 Mawrth 2007.

<sup>24</sup> Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, **Arolygiad Urdas a Gofal Hanfodol**, 6 Chwefror 2014.

- 
75. Ym mis Hydref 2014, wrth ymateb i **Ymddiried mewn Gofal**, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth grŵp gorchwyl a gorffen o fferyllwyr a staff nyrsio i roi sylw i'r agweddau o'r adroddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaethau. Sefydlodd y grŵp, a gadeiriwyd gan y Cyfarwyddwr Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, fframwaith sicrwydd i fapio'r gwaith a gynlluniwyd neu a oedd eisoes ar droed gyferbyn â'r 14 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad. Mae'r camau gweithredu a bennwyd yn y fframwaith yn niferus ac yn cynnwys y canlynol:
- adolygu'r polisi gweinyddu meddyginiaethu;
  - cyflwyno archwiliadau o'r dosau a hepgorwyd;
  - diwygiadau yn y trefniadau ar gyfer hyfforddiant meddyginiaethau i nyrsys;
  - cynnal cronfa ddata ar ddigwyddiadau ynglŷn â meddyginiaethau;
  - hyfforddiant gloywi i'r holl staff fferyllol ynglŷn â safonau proffesiynol a'r cod ymarfer; ac
  - archwiliad gwirio dirybudd ynghylch cyffuriau a adewir yng nghyprddau'r cleifion a llenwi siartiau presgripsiynu.
76. Ym Mehefin a Gorffennaf 2015 ymwelsom â'r wardiau cleifion mewnol yng Nghanolfan Ganser Felindre. Wrth arsylwi a thrafod gyda'r staff yn ystod yr ymweliadau, gwelwyd bod rhai materion yn parhau heb eu datrys ynglŷn â storio. Crynhoir ein canfyddiadau isod:
- Y Ward ar y Llawr Cyntaf – Roedd ystafell driniaeth wedi ei hadnewyddu yn ddiweddar ac yn darparu digonedd o le ar gyfer storio. Fodd bynnag, mae'r system fynediad cod PIN yn blipio'n swllyd, ac o bosibl yn tarfu ar y cleifion sydd o fewn clyw. Cyfeiriodd nyrsys hefyd at y rhwystredigaeth a'r aneffeithlonrwydd a achosir oherwydd bod angen allweddi gwahanol ar gyfer gwahanol gypyrddau cyffuriau. Er bod y drws allanol i'r ystafell wedi ei gloi, sylwyd nad oedd tri o'r droriau yn yr ystafell wedi eu cloi..
  - Yr Uned Cemotherapi Cleifion Mewnol – Roed yr ystafell driniaeth wedi ei chloi, ond nid y cypyrddau meddyginiaethau. Roed yr ystafell gemotherapi wedi ei chloi gan ddefnyddio system cod PIN electronig newydd. Nid oedd yr oergell wedi ei chloi. Cedwid meddyginiaethau cemotherapi a hylifau mewnwythiennol ar silffoedd agored (ond dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r meddyginiaethau gyrraedd tymheredd yr ystafell cyn eu defnyddio).
  - Yr Uned Cymorth Gweithredol –Nid oedd yr ystafell driniaeth wedi ei chloi, ond roedd y cypyrddau sydd i mewn ynddi wedi eu cloi.
77. Yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol, canfuwyd bod gan bob un o'r 32 o gleifion (100 y cant) gwpwrdd cloadwy a oedd yn gweithio'n iawn. Mae hyn yn cymharu a 94 y cant ar draws Cymru.
78. Drwy gyflwyno peiriannau cyflenwi awtomatig ar gyfer storio a dosbarthu meddyginiaethau yn y wardiau, gellir gwella diogelwch a'r trywyddau archwilio, a rhyddhau amser y staff nyrsio. Nid oes gan yr un o wardiau'r Ymddiriedolaeth beiriant cyflenwi sy'n gweithio, er bod peiriant mewn wyth y cant ar gyfartaledd o wardiau ledled Cymru. Mae peiriant cyflenwi wedi ei osod yn yr Uned Cemotherapi Cleifion Mewnol (ond nid yw eto'n gweithio), a bwriedir defnyddio un arall yn lle'r storfa feddyginiaethau argyfwng ger yr Adran Fferylliaeth.
79. Yn ystod y gwiriadau **Ymddiried mewn Gofal** ledled Cymru, datgelwyd bod materion yn codi ynglŷn ag oergelloedd meddyginiaethau yn y wardiau. Yn ystod ein hymweliadau â'r wardiau, canfuom fod yr oergell yn yr Uned Cemotherapi Cleifion Mewnol yn cael ei gadael heb glo arni, a bod staff ym mhob un o'r wardiau yn ansicr ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran monitro tymereddau'r oergelloedd.

# Rhan 4

---

## Prosesau rheoli meddyginiaethau

Mae gan yr Ymddiriedolaeth rai prosesau da, gan gynnwys defnyddio presgripsiynu electronig, cynnal cysoniadau yn brydlon, a rôl y presgripsiynwyr anfeddygol. Mae materion yn codi mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth gyda'r sector gofal sylfaenol, gwirio cyffuriau rheoledig, a diffyg hunan-weinyddu

## Gwybodaeth gan ymarferwyr cyffredinol wrth dderbyn

Yn gyffredinol, negyddol oedd barn y staff am ansawdd yr wybodaeth a ddarperir gan ymarferwyr meddygol cyffredinol, ac mae technegwyr yn treulio amser gwerthfawr yn ceisio cael gwybodaeth am feddyginiaethau cleifion gan y sector gofal sylfaenol

80. Pan dderbynnir cleifion i'r ysbyty, gall cyfathrebu da rhwng y practis meddyg teulu a'r ysbyty osgoi camgymeriadau ac anghywirdeb ynglŷn â meddyginiaethau'r cleifion. Os na reolir y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn briodol, gall fod yn faes o risg uchel o ran rheoli meddyginiaethau
81. Yn ein harolwg, roedd 24 y cant o'r meddygon ysbyty, 27 y cant o'r staff fferyllol a 34 y cant o'r nyrsys yn yr Ymddiriedolaeth yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad bod yr wybodaeth derbyn a geir ynglŷn â chleifion dewisol yn ddigonol. Ar draws Cymru, y ffigurau oedd fod 37 y cant o'r meddygon ysbyty, 26 y cant o'r staff fferyllol a 40 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.
82. Yn achos cleifion brys 18 y cant yn unig o'r meddygon ysbyty, saith y cant o'r staff fferyllol a 12 y cant o'r nyrsys oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad ei bod 'yn hawdd cael mynediad at ddigon o wybodaeth ysgrifenedig/electronig ynglŷn â meddyginiaeth bresennol claf'. Y canlyniadau ar gyfer gweddill Cymru oedd 11 y cant o'r meddygon, 11 y cant o'r staff fferyllol ac 13 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf a'r gosodiad.
83. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ganllawiau ar gyfer meddygon teulu, sy'n pennu pa wybodaeth i'w darparu pan dderbynnir eu cleifion i'r ysbyty. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cydnabod bod trosglwyddo gwybodaeth am feddyginiaethau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn faes sy'n cynnwys risg i'r Ymddiriedolaeth. Dywedwyd wrthym fod technegwyr fferylliaeth yn treulio cryn amser yn ffonio ac yn ffacio practisiau meddygon teulu i geisio cael gwybodaeth am feddyginiaethau. Yn nodweddiadol, mae'r broses hon yn cymryd 10 i 15 munud ar gyfer pob claf, ond gall gymryd hyd at 50 munud.
84. System electronig yw'r Cofnod Iechyd Unigol (CIU) sy'n cynnwys crynodeb o'r wybodaeth a ddelir gan feddygon teulu am eu cleifion. Cynhelir arbrawf peilot ar ddefnyddio'r CIU i gysoni meddyginiaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r system CIU yn caniatáu i fferyllwyr gael mynediad uniongyrchol i'r wybodaeth a ddelir gan feddygon teulu am feddyginiaethau cleifion. Mae'r gwerthusiadau yng Nghaerdydd a'r Fro yn awgrymu bod defnyddio CIU yn arbed saith munud o amser fferylliaeth ar gyfartaledd o am bob claf y cysonir ei feddyginiaethau. Yn 2013-14, nifer y derbyniadau brys i Felindre oedd 1,231, sef cyfartaledd o 3.4 y diwrnod. Pe bai CIU wedi ei ddefnyddio ar gyfer pob un o'r derbyniadau hyn, byddai hynny wedi arbed tua 34 munud o amser fferylliaeth bob diwrnod. O ystyried y gwelliannau diogelwch sy'n bosibl drwy ddefnyddio CIU ynghyd



---

â'r posibilrwydd o arbedion amser sylweddol i'r staff fferyllol ac i bractisiau cyffredinol, mae'n bwysig bod yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio â'i phartneriaid i hwyluso rhoi CIU ar waith.

## Cysoni ac adolygu meddyginiaethau yn yr ysbyty

Cysonid meddyginiaethau mwyafrif o'r cleifion o fewn un diwrnod ar ôl eu derbyn er bod llai o cleifion yr Ymddiriedolaeth yn cael adolygiad cynhwysfawr o'u meddyginiaethau, o gymharu â gweddill Cymru

85. Proses o wirio yw cysoni meddyginiaethau, a arweinir yn aml gan fferylllydd, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyflawn am feddyginiaethau yn dilyn y claf, pan fo'r claf yn symud i mewn neu allan o'r ysbyty. Yn y **Safonau Proffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Fferyllol mewn Ysbytai** (y Safonau) pennir y dylai meddyginiaethau cleifion gael eu cysoni o fewn 24 awr ar ôl eu derbyn i'r ysbyty, er mwyn osgoi gwneud newidiadau nas bwriedir yn eu meddyginiaeth<sup>25</sup>. Allan o'r 32 o gleifion a welwyd fel rhan o'n hadolygiad fferylliaeth glinigol, roedd 29 (sef 91 y cant) wedi cael eu cysoniad o fewn un diwrnod ar ôl eu derbyn<sup>26</sup>. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd o 64 y cant ledled Cymru. Mae data'r Ymddiriedolaeth ei hunan ar brydlondeb cysoni meddyginiaethau yn dangos bod mwy nag 85 y cant o'r cleifion, yn ystod wyth mis cyntaf 2014, wedi cael cysoniad eu meddyginiaethu o fewn 24 awr ar ôl eu derbyn<sup>27</sup>.
86. Yn ystod arhosiad cleifion mewn ysbyty, dylid adolygu eu meddyginiaethau yn rheolaidd. yn eu hymateb i'n harolwg roedd 64 y cant o'r staff fferyllol, 87 y cant o'r meddygon a 68 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mae cleifion yn cael adolygiadau o'u meddyginiaethau (gan unrhyw aelod o'r tîm amlddisgyblaethol) yn aml yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.' Ar gyfer Cymru gyfan, roedd 66 y cant o'r staff fferyllol, 67 y cant o'r meddygon a 66 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad.
87. Roedd ein hadolygiad fferylliaeth glinigol yn dangos mai fferyllwyr, bron yn ddieithriad, oedd yn cyflawni'r adolygiadau hyn, ac mai chwech y cant yn unig ledled Cymru a gyflawnid gan feddygon. Yn Felindre, yn achos pob un o'r cleifion a gofnodwyd yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol, fferylllydd a ymgymerodd â'r adolygiadau o'u meddyginiaethau. Pump yn unig (sef 16 y cant) o'r cleifion yn ein sampl yn Felindre a gafodd adolygiad meddyginiaethau cynhwysfawr<sup>28</sup>. y ffigur cyfatebol ar gyfer gweddill Cymru oedd y cant. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn nad yw'n briodol i'w staff gynnal adolygiadau meddyginiaethau cynhwysfawr ar gleifion fel mater o'r drefn arferol. Y rheswm am hyn yw mai oncolegwyr arbenigol yw staff meddygol y ganolfan ganser, ac nad ydynt yn arbenigwyr mewn rheoli'r amodau a'r meddyginiaethau nad oes a wnelont â chanser.

---

<sup>25</sup> Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol, **Medicines reconciliation: A guide to implementation**.

<sup>26</sup> Mae'r ffigur yn cynrychioli cleifion yr oedd dyddiad eu hadolygiad naill ai y dyddiad y'u derbyniwyd neu'r diwrnod dilynol.

<sup>27</sup> Cymerwyd y data hyn o ddogfen yr Ymddiriedolaeth sy'n dwyn y teitl **Current Pharmacy Services Overview**, M edi 2014.

<sup>28</sup> Gofynnwyd i'r timau fferylliaeth a oedd yn cynnal yr adolygiad fferylliaeth glinigol ddefnyddio tystiolaeth o nodiadau'r claf i nodi'r lefel uchaf o adolygu meddyginiaethau a oedd wedi digwydd, o fewn ystod a oedd yn amrywio o 'Dim' i to 'Adolygiad llawn sy'n cynnwys yr hanes o gymryd cyffuriau, adolygiad o'r hanes a nodiadau clinigol a thrafodaeth gyda'r claf ar gydgordio'.

---

## Siartiau gweinyddu meddyginiaethau

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r siart gyffuriau safonol ar gyfer pob claf, a chawsom fod y modd y cofnodid statws alergedd cleifion yn dda, er bod lle i wella o ran cofnodi dyddiadau hanesion meddyginiaethol a chysoniadau meddyginiaethau

88. Mae'r broses o reoli meddyginiaethau mewn ysbyty yn dibynnu'n helaeth ar gadw cofnodion diogel ac effeithiol. Dylai staff ddefnyddio siartiau cyffuriau i gofnodi pa feddyginiaethau a bresgripsiynwyd i gleifion, y dosau sy'n ofynnol a chofnodi'n eglur yr adegau y rhoddwyd y dosau. Mae siart gyffuriau safonol, a elwir y Cofnod Gweinyddu Meddyginiaethau Cleifion Mewnol, wedi ei datblygu yng Nghymru ac wedi ei chymeradwyo gan Goleg Brenhinol y Meddygon. Dylid defnyddio siart wahanol, sef y Cofnod Gweinyddu Meddyginiaethau Arhosiad Hir ar gyfer cleifion sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnodau hir. Canfu ein hadolygiad o siartiau cyffuriau yn yr Ymddiriedolaeth fod pob un o'r cleifion wedi cae y ffurflen safonol. Yng ngweddill Cymru gyfan, roedd 93.3 y cant wedi cael y ffurflen safonol, 6.4 y cant wedi cael y Cofnod Gweinyddu Meddyginiaethau Arhosiad Hir, a 0.3 y cant wedi cael math ansafonol o siart.
89. Cawsom fod lle i wella'r modd y cofnodid dyddiadau pan ymgwymerid â chysoni meddyginiaethau a chofnodi hanesion meddyginiaethol. Yn ein hadolygiad o siartiau cyffuriau, allan o 26 o gleifion ledled yr Ymddiriedolaeth, canfuwyd mai 12 claf yn unig oedd â dyddiad ei hanes meddyginiaethol wedi ei gofnodi, ac 16 claf oedd â dyddiad eu cysoniad meddyginiaethau wedi ei gofnodi.
90. Pan fo llawer o feddyginiaethau wedi eu presgripsiynu ar gyfer claf, mae'n bosibl y bydd angen mwy nag un siart gyffuriau. Mewn enghreifftiau o'r fath, canfuom yn aml nad oedd gwybodaeth bwysig am y claf yn cael ei throsglwyddo i dudalen flaen y siartiau cyffuriau newydd. Roedd yr wybodaeth a hepgorwyd felly yn cynnwys dyddiadau derbyn yn ogystal â dyddiad hanes meddyginiaethol, dyddiad y cysoniad meddyginiaethau a manylion am faterion cydymffurfiaeth y claf.
91. Pa bynnag fath o siart cyffuriau a ddefnyddir, dylai fod cofnod o alergeddau'r claf ac unrhyw sensitifrwydd i feddyginiaethau. Mae adweithiau alergaidd yn cynrychioli risg ddifrifol i ddiogelwch cleifion, ac yn ganlyniad cyffredin camgymeriadau ynglŷn â chyffuriau. Yn ein hadolygiad o siartiau cyffuriau 26 o gleifion ledled yr Ymddiriedolaeth, canfuwyd bod statws alergedd pob un (100 y cant) wedi ei gofnodi ar y siart gyffuriau. Mae hy yn cymharu â 98 y cant ledled Cymru.

## Prosesau cyffurlyfr

Roedd staff meddygol yr Ymddiriedolaeth yn fwy cadarnhaol na'r staff yng ngweddill Cymru ynghylch defnyddioldeb y cyffurlyfr, ond gellid gwneud rhagor i wella argaeledd Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain

92. Cyffurlyfr yw'r rhestr o feddyginiaethau a ffeirir gan gorff iechyd, ac y caiff y staff ei defnyddio fel dogfen i gyfeirio ati er mwyn presgripsiynu mewn modd diogel a chost-effeithiol. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth gyffurlyfr penodol ar gyfer Felindre. Tan Ionawr 2014 roedd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio cyffurlyfr ar y cyd â (de) Bro Taf, ond erbyn hyn mae'n defnyddio cyffurlyfr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod wrthi'n datblygu cyffurlyfr lleol.

93. Yn eu hymateb i'r arolwg ar gyfer yr archwiliad hwn, dywedodd 87 y cant o'r meddygon ysbyty a 71 y cant o'r nyrsys eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y cyffurlyfr (a'r canllawiau/ dogfennau ategol) yn bodloni eu hanghenion. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer gweddill Cymru oedd 45 y cant a 74 y cant.
94. Cyhoeddir Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (The British National Formulary) (BNF) i ddarparu gwybodaeth gyson a chyfoes am feddyginiaethau i bresgripsiynwyr, fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill. Mae'n bwysig bod staff yn y wardiau yn cael mynediad i'r fersin ddiweddaraf o'r BNF. Mae **Arddangosyn 12** yn dangos y ganran o'r staff meddygol a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiadau ynglŷn â'r BNF pan oeddent yn y wardiau.

**Arddangosyn 12: Roedd staff meddygol yn yr Ymddiriedolaeth yn fwy cadarnhaol nag yng ngweddill Cymru ynglŷn â mynediad cyfrifiadurol i'r BNF, ond gellir gweithredu ymhellach i wella hygyrchedd y BNF.**

	Felindre	Cymru
Mae'r fersiwn ddiweddaraf BNF ar gael yn hwylus fel copi caled	61%	60%
Gallaf gael mynediad i'r BNF yn hwylus gan ddefnyddio cyfrifiadur	52%	40%
Rwy'n tueddu i ddefnyddio ffôn clyfar i gael mynediad i'r BNF	8%	22%

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o staff meddygol

## Presgripsiynu electronig

**Mae Felindre wedi defnyddio system presgripsiynu electronig ers blynyddoedd lawer, ac mewn sefyllfa dda i rannu'r hyn a ddysgodd gyda gweddill Cymru**

95. Ystyr presgripsiynu electronig yw cynhyrchu, trawsyrru a ffeilio presgripsiwn am feddyginiaethau ar gyfrifiadur. Mae'r systemau presgripsiynu electronig yn y sector gofal eilaidd yn caniatáu trosglwyddo gwybodaeth mewn ffordd gyflymach, diogelach a chost-effeithiol<sup>29</sup>. Mae'r systemau hyn hefyd yn gyfle nodedig i ddylanwadu ar arferion presgripsiynu clinigwyr gofal eilaidd ac atgoffa'r staff am flaenoriaethau'r corff iechyd o ran presgripsiynu.
96. Dywedodd y byrddau iechyd ledled Cymru wrthym nad oes prosesau presgripsiynu electronig wedi eu sefydlu yn yr un o'u wardiau. Fodd bynnag, mae Felindre, ers blynyddoedd lawer, wedi sefydlu system presgripsiynu electronig a elwir Chemocare. System yw Chemocare ar gyfer presgripsiynu cemotherapi a meddyginiaethau eraill a allai fod yn ofynnol ar gyfer cleifion sy'n cael cemotherapi. Nid yw'n ymwneud o gwbl â phresgripsiynu cyffredinol.
97. Roedd barn y staff am y system Chemocare y gadarnhaol yn gyffredinol. Tybiwn fod yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa dda i rannu ei phrofiadau o sefydlu a defnyddio'r system gyda gweddill Cymru, fel rhan o unrhyw waith a wneir ar y lefel genedlaethol i ddatblygu systemau presgripsiynu electronig cyffredinol. Byddai'r Ymddiriedolaeth ei hunan yn cael budd o ddatblygu systemau presgripsiynu electronig cyffredinol yng Nghymru, gan mai cemotherapi yn unig, ac nid mathau eraill o feddyginiaethau, a gynhwysir yn Chemocare.

<sup>29</sup> 1000 o Fywydau a Mwy, **Achieving prudent healthcare in NHS Wales**, Mehefin 2014

- 
- 98.** Mae ein gwaith maes wedi datgelu tri mater ynglŷn â defnyddio Chemocare yn Felindre:
- Y mater cyntaf yw nad yw pob un o'r meddygon iau yn cael mynediad i'r system.
  - Yr ail fater yw'r risg bosibl o ddyblygu presgripsiynau mewn perthynas â'r meddyginiaethau ategol. Mae'r meddyginiaethau ategol yn cynnwys cyffuriau gwrth-gyfog sy'n gwrthbwysu sgil-ffeithiau'r cemotherapi. Mae'n bosibl presgripsiynu meddyginiaethau ategol drwy Chemocare yn ogystal â thrwy'r siartiau cyffuriau ysgrifenedig yn y wardiau. Dywedodd staff wrthyf fod defnyddio'r ddwy system bresgripsiynu yn golygu bod rhaid gwirio presgripsiynau yn drwyadl i sicrhau nad oes dyblygu. Mae uwch aelodau o'r staff o'r farn mai bach iawn yw'r risgiau
  - Y trydydd fater yw mai'r tîm fferylliaeth ar hynn o bryd sy'n gyfrifol am gadw Chemocare yn gyfoes drwy gyflawni tasgau megis ychwanegu cyffuriau newydd at y system. Mae hyn yn draul ar adnoddau'r tîm fferylliaeth.

## Presgripsiynu gan staff anfeddygol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu rôl y fferyllwyr sy'n presgripsiynu ymhellach na gweddill Cymru; ac er bod manteision hynny yn amlwg, mae'r arferiad hefyd yn tynnu'r fferyllwyr oddi wrth eu tasgau creiddiol

- 99.** Drwy hyfforddi fferyllwyr, nyrsys a staff anfeddygol eraill fel presgripsiynwyr, gellir gwella mynediad y cleifion at gyngor ac arbenigedd meddyginiaethol, cyfrannu at waith tîm mwy hyblyg ac arwain at gyflymu a symleiddio'r gofal<sup>30</sup>.
- 100.** Mae cyrff iechyd ledled Cymru wedi cael anhawster i ddarparu data cynhwysfawr inni ar y nifer o bresgripsiynwyr anfeddygol sy'n aelodau o'u staff, a rhagor o drafferth i ddarparu'r nifer o'r staff hynny sy'n defnyddio'u sgiliau yn rheolaidd. Ar draws gweddill Cymru, adroddodd y byrddau iechyd fod ganddynt rhwng 44 a 303 o bresgripsiynwyr atodol mewn swyddi. Darparodd pedwar bwrdd iechyd wybodaeth am y gyfran o'r nyrsys a fferyllwyr a oedd yn presgripsiynu'n rheolaidd, ond dau yn unig a gofnododd yr wybodaeth honno am grwpiau eraill o'u staff anfeddygol. Ilwyddodd yr Ymddiriedolaeth hon i ddarparu gwybodaeth dda, a dywedodd wrthym fod ganddi 17 o nyrsys, chwe fferylllydd a dau o weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill a oedd wedi cofrestru fel presgripsiynwyr ac yn ymarfer yn rheolaidd.
- 101.** Yn eu hymateb i'n harolwg, roedd 63 y cant o staff fferyllol, 87 y cant o feddygon a 50 y cant o nyrsys yr Ymddiriedolaeth yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mae'r staff a hyfforddwyd mewn presgripsiynu anfeddygol yn defnyddio'r sgiliau hynny yn rheolaidd'. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n dda â'r ffigurau ar gyfer gweddill Cymru, sef 29 y cant o'r staff fferyllol, 28 y cant o'r meddygon a 33 y cant o'r nyrsys.
- 102.** Roedd ein hadolygiad fferylliaeth glinigol yn dangos mai'n anaml y mae fferyllwyr yn presgripsiynu yn y wardiau; y cyfartaledd ledled Cymru yw 1.5 presgripsiwn am bob 100 o gleifion a adolygir. Yn yr Ymddiriedolaeth, nid ysgrifennodd y staff fferyllol unrhyw bresgripsiynau.
- 103.** Mae **Arddangosyn 13** yn dangos sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn cymharu â chyrrff eraill yng Nghymru o ran polisiâu ar bresgripsiynu anfeddygol.

---

<sup>30</sup> Ni chaiff presgripsiynwyr atodol bresgripsiynu ac eithrio mewn partneriaeth â meddyg neu ddeintydd. Caiff presgripsiynwyr annibynnol bresgripsiynu ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol o fewn eu maes cymhwysedd.

---

**Arddangosyn 13: Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu tri allan o'r pedwar polisi presgripsiynu anfeddygol allweddol**

<b>A yw'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu'r polisiau hyn?</b>	<b>Felindre</b>	<b>Cymru</b>
Criteria ar gyfer dethol staff i'w hyfforddi fel presgripsiynwyr anfeddygol	Naddo	Mabwysiadwyd gan bum bwrdd iechyd
Mecanwaith ar gyfer cofnodi presgripsiynwyr anfeddygol a rhannu'r rhestr â chyfarwyddiaethau priodol	Do	Mabwysiadwyd gan bob bwrdd iechyd
Mecanweithiau cymorth er mwyn sicrhau bod presgripsiynwyr anfeddygol yn diweddarau eu gwybodaeth	Do	Mabwysiadwyd gan bob bwrdd iechyd
Gofynion cymhwysedd er mwyn cynnal dilysiad fel presgripsiynydd anfeddygol	Do	Mabwysiadwyd gan dri bwrdd iechyd

Ffynhonnell: Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Creiddiol Swyddfa Archwilio Cymru

- 104.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ansawdd y presgripsiynu anfeddygol (PA) drwy gynnal cyfarfodydd PA chwarterol ac asesiadau cymhwysedd blynyddol. Yn eu hymateb i'n harolwg, roedd staff Felindre yn fwy cadarnhaol na'r staff yng ngweddill Cymru ynglŷn â'r modd y caiff perfformiad PA ei fonitro. Yn yr Ymddiriedolaeth roedd 34 y cant o'r staff fferyllol, 70 y cant o'r meddygon a 43 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mae'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth wedi sefydlu rheolaethau da ar gyfer monitro perfformiad presgripsiynwyr anfeddygol.' Yng ngweddill Cymru y ffigurau oedd 14 y cant ar gyfer staff fferyllol, 14 y cant ar gyfer meddygon a 24 y cant ar gyfer nyrsys.
- 105.** Mae Felindre'n defnyddiol nyrsys fel presgripsiynwyr mewn clinigau cleifion allanol ac yn y wardiau, a defnyddir fferyllwyr fel presgripsiynwyr mewn wyth clinig cleifion allanol. Bu staff o bob disgyblaeth yn sôn wrthym am fanteision pell-gyrhaeddol y mewnbwn gan fferyllwyr a nyrsys sy'n presgripsiynu. Ceir cyfle, er enghraifft i'r staff fferyllol, nyrsio a meddygol gydweithio'n glòs gyda'i gilydd a dysgu gan y naill a'r llall. Mae cynnwys y staff fferyllol a nyrsys hefyd yn golygu bod adnoddau ychwanegol ar gael i gwrdd â'r galw yn y clinigau prysur hyn.
- 106.** Dywedwyd wrthym hefyd am rai materion sy'n codi ynglŷn â'r model hwn o wasanaethau. Mae'r gwasanaeth fferylliaeth yn cynorthwyo mewn wyth o glinigau cleifion allanol, ond caiff y gwasanaeth ei 'ôl-lenwi' ar gyfer pedwar clinig yn unig. Felly mae'r ymwneud â chlinigau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth fferylliaeth ar gyfer ei dasgau creiddiol. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff nyrsio, pan hyfforddir hwy fel presgripsiynwyr, yn cael eu tynnu ymaith o'u swyddogaethau nyrsio, ac maent hwythau felly'n disbyddu'r adnoddau nyrsio. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn cychwyn prosiect i asesu effeithiolrwydd y presgripsiynu anfeddygol. Cyflogwyd rheolwr prosiect am ddwy flynedd i werthuso presgripsiynu anfeddygol, asesu a yw'n darparu gwerth am arian a datblygu argymhellion ar gyfer y dyfodol.

---

## Gweinyddu meddyginiaethau

Cymharol brin yn yr Ymddiriedolaeth oedd achosion pan nad oedd yn eglur a oedd cyffur wedi ei roi ai peidio. Fodd bynnag, mae'r wardiau'n amrywio o ran eu dull o wirio cyffuriau rheoledig, ac nid oes polisi ar gyfer hunan-weinyddu cyffuriau gan gleifion

107. Roedd **Ymddiried mewn Gofal** yn tynnu sylw at broblemau difrifol ynglŷn â'r ffordd y mae meddyginiaethau yn cael eu gweinyddu a'u cofnodi. Mae'r holl sefydliadau wedi paratoi cynlluniau gweithredu i ymateb i **Ymddiried mewn Gofal** ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu ar ystod o faterion eraill, gan gynnwys cynnal archwiliadau rheolaidd o'r dosau a hepgorir neu a ohirir. Adroddir am ganfyddiadau'r archwiliadau hyn wrth y Pennaeth Nyrsio ac Uwch-dîm Rheoli'r ganolfan ganser.
108. Wrth ymateb i'n harolwg, roedd 67 y cant o'r staff fferyllol, 52 y cant o'r meddygon a 77 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mae'r sefydliad wedi cymryd camau priodol mewn perthynas ag **Ymddiried mewn Gofal** (Adroddiad Andrews).' Mae hyn yn cymharu ag 82 y cant o'r staff fferyllol, 34 y cant o'r meddygon a 66 y cant o'r nyrsys ledled Cymru.
109. Mae **Ymddiried mewn Gofal** yn cyfeirio at ohirio neu hepgor dosau, a phroblemau penodol gyda chleifion dryslyd ac ansymudol na allant gymryd eu pils heb gael eu goruchwyllo ac felly ddim yn cael eu meddyginiaeth mewn pryd, neu ddim o gwbl. Weithiau mae rhesymau sy'n cyfiawnhau hepgor dos, megis pan fo claf yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth. Ar adegau, fodd bynnag, hepgorir dosau oherwydd nad yw'r cyffur ar gael yn y ward, neu oherwydd bod cofnodi gwael yn peri nad yw'n eglur o'r siart gyffuriau a yw'r dos wedi ei roi ai peidio. Mae'r amgylchiad olaf yn arbennig o beryglus, oherwydd y risg y gellid rhoi'r feddyginiaeth i'r claf ddwywaith.
110. Roedd yr adolygiad fferylliaeth glinigol a gynhaliwyd gan y staff fferyllol yn ymwneud â 32 o gleifion dros gyfnod o 24 awr yn nhair ward yr Ymddiriedolaeth. Canfuwyd 13 achlysur pan gafodd dos ei hepgor. Roedd chwe achlysur pan oedd y claf wedi gwrthod y feddyginiaeth, dau achlysur pan ataliwyd y dos ar gais y presgripsiynydd, dau achlysur pan nad oedd y claf yn y ward, dau achlysur pan nodwyd 'arall' fel y rheswm dros beidio â rhoi'r feddyginiaeth ac un achlysur pan hepgorwyd dos oherwydd nad oedd cyffur ar gael. Nid ystyriwyd ar unrhyw achlysur fod y cofnodion yn aneglur ynghylch hepgor dos.
111. Buom yn edrych hefyd ar y siartiau cyffuriau yn ystod ein hymweliad â'r ganolfan ganser. Adolygwyd siartiau cyffuriau 26 o gleifion ar draws y tair ward. Ym mhob un o'r wardiau, canfuom un achos pan nad oedd yn eglur a oedd cyffur wedi ei roi ynteu ei hepgor. Roedd hyn yn cynrychioli cyfradd o 1.2 achlysur am bob 10 claf a adolygwyd. Y ffigur cyfatebol ar gyfer gweddill Cymru oedd 2.5 achlysur am bob 10 claf.
112. Mae safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn pennu bod rhaid sefydlu a gweithredu polisi ar 'asesu cymhwysedd unigolyn i gynorthwyo claf i gymryd meddyginiaeth'. Mae'r safonau hynny hefyd yn pennu mai cyfrifoldeb y staff nyrsio yw asesu cymhwysedd cleifion i hunan-weinyddu eu meddyginiaethau. Canfuom nad oedd gan yr un o'r wardiau yn yr Ymddiriedolaeth weithdrefn ar gyfer hunan-weinyddu (mae hyn yn cymharu â 25 y cant o'r wardiau ledled Cymru) ac nid oedd neb o'r cleifion yn hunan-weinyddu. Ledled Cymru, canfyddiad ein hadolygiad fferylliaeth glinigol oedd mai nifer fach iawn o gleifion oedd yn hunan-weinyddu eu meddyginiaethau. Allan o 1,026 o gleifion a archwiliwyd, 12 yn unig oedd yn hunan-weinyddu, ac yn achos tri o'r 12 hynny yn unig y gwnaed asesiad risg. Roedd 120 arall o gleifion yn hunan-weinyddu i raddau cyfyngedig.
113. Yn ystod ein cyfweiliadau, soniodd rhai o staff yr Ymddiriedolaeth am y buddion posibl i'r cleifion pe cyflwynid polisi hunan-weinyddu yn y ganolfan ganser. Dywedwyd wrthym am y perygl y gallai'r arferion presennol 'sefydliadu' cleifion; ac mae hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ei hunan gyferbyn

---

â'r **Safonau Proffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Fferyllol mewn Ysbytai** (y Safonau) hefyd yn cydnabod bod risg 'ganolig' yn gysylltiedig â diffyg polisi ynglŷn â hunan-weinyddu.

- 114.** Mae gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli cyffuriau rheoledig yn amrywio o fewn y ganolfan ganser. Mae'r gweithdrefnau presennol yn pennu bod rhaid i ddwy nyrs, ar y cyd, wirio'r cyffuriau rheoledig yn yr Uned Cemotherapi Cleifion Mewnol, ond gweithredir proses o wirio gan un nyrs ar ei phen ei hunan yn Ward y Llawr Cyntaf. Sefydlwyd gweithgor gan yr Ymddiriedolaeth i ystyried y mater hwn, ac i gysylltu hynny â'r gwaith sydd ar doed gan y Grŵp Gweinyddu, Cofnodi, Adolygu a Storio Meddyginiaethau cenedlaethol (MARRS). Disgwylid y byddai canllawiau'r grŵp hwnnw yn ymddangos o gwmpas yr adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn.

## Cynorthwyo cleifion i gydymffurfio

Cymharol brin yn yr Ymddiriedolaeth oedd achosion o ddiffyg cydymffurfio ymhlith cleifion; ac er mai ychydig o amser y tîm fferylliaeth a dreulir yn addysgu cleifion yn y wardiau, mae'r gwasanaeth addysg cemotherapi geneuol a arweinir gan dechnegydd yn enghraifft o arfer da

- 115.** Dangosodd astudiaethau<sup>31</sup> nad yw hyd at hanner yr holl gleifion yn cymryd eu meddyginiaethau fel y bwriedid. Mae methiant i gymryd meddyginiaethau yn briodol yn creu goblygiadau pwysig o ran diogelwch cleifion ac yn achosi gwastraff sylweddol. Gall hyn ddigwydd oherwydd nad yw cleifion yn deall yn llawn y cyfarwyddiadau sut i gymryd y meddyginiaethau, neu oherwydd eu bod yn gorfforol analluog i weinyddu'r feddyginiaeth ar eu pen eu hunan. Dylai cyrff GIG sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hwylus i'r cleifion, a chymryd camau rhagweithiol er mwyn adnabod cleifion sydd arnynt angen cymorth ychwanegol i gymryd eu meddyginiaethau.
- 116.** Roedd canlyniadau ein hadolygiad fferylliaeth glinigol yn dangos nad ystyrid bod unrhyw fater yn codi ynglŷn â chydymffurfiaeth neu anhawster i gymryd meddyginiaeth fel y cynghorwyd, yn achos unrhyw un o'r cleifion a adolygwyd yn yr Ymddiriedolaeth. Hwn oedd yr unig safle yng Nghymru, lle na chanfuwyd materion cydymffurfiaeth o'r fath. Ledled Cymru, canfuwyd bod materion cydymffurfiaeth yn codi ynglŷn ag un o bob pump o'r cleifion a adolygwyd.
- 117.** Rydym wedi dyrannu sgôr i bob sefydliad drwy ystyried y camau a gymerir ganddynt i gynorthwyo pobl i gydymffurfio â'u meddyginiaethau<sup>32</sup>. Sgôr yr Ymddiriedolaeth oedd 13 allan o 32 pwynt posibl, sy'n cymharu â chyfartaledd o 17 ledled Cymru. Mae'r sgôr cymharol isel hwn yn adlewyrchu'r cyfyngiad a osodir ar gleifion, sy'n eu hatal rhag hunan-weinyddu eu meddyginiaethau: nid yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio systemau rheoli dosau, ac nid asesir cleifion ar eu gallu i agor cynwysyddion meddyginiaethau. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn ymchwilio i anawsterau cleifion ynghylch cymryd eu meddyginiaethau tra bônt yn yr ysbyty, ni throsglwyddir yr wybodaeth honno fel rhan o'r drefn arferol i ddarparwyr gofal sylfaenol pan ryddheir y cleifion.
- 118.** Ledled Cymru canfuom fod timau fferylliaeth yn ei chael yn anodd treulio digon o amser yn addysgu cleifion ynglŷn â'u meddyginiaethau. Yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol ledled Cymru, canfuom mai chwech y cant yn unig o'r cleifion neu eu gofalwyr a addysgid ynghylch unrhyw agwedd ar eu meddyginiaeth. Yn yr Ymddiriedolaeth hon, y ffigur oedd ychydig dro un y cant.

---

<sup>31</sup> 1000 o Fywydau a Mwy, **Achieving prudent healthcare in NHS Wales**, Mehefin 2014

<sup>32</sup> Ystyriwyd a oedd cleifion yn cael eu hasesu ar eu gallu i agor cynwysyddion, a oedd cleifion yn cael eu cwnsela ynghylch meddyginiaethau cymhleth a risg-uchel, a ddefnyddid siartiau atgoffa a systemau monitro dosau, a roddid gwybodaeth ysgrifenedig a oedd wedi ei thargedu'n briodol, a oedd grwpiau addysg yn bodoli, ac a hysbysid meddygon teulu ynghylch anawsterau cydymffurfiaeth y cleifion.

- 119.** Er gwaethaf prinder ymddangosiadol yr amser a dreulid yn addysgu cleifion yn y wardiau, canfuom enghraifft debygol o arfer da yn yr Ymddiriedolaeth, o ran darparu addysg i gleifion yn fwy cyffredinol. Fel rhan o'r Gwasanaeth Addysg Cemotherapi, mae technegwyr fferylliaeth yn addysgu cleifion ynglŷn â'u cemotherapi geneuol. Dysgir y cleifion sut a pha bryd i gymryd eu meddyginiaethau, a gwneir hwy'n ymwybodol o sgil-ffeithiau a chymhlethdodau. O ganlyniad i'r gwasanaeth hwn, gellir dosbarthu meddyginiaeth diwrnod un a diwrnod wyth i'r claf yr un pryd, fel na fydd rhaid iddo ddychwelyd i'r ysbyty i gael yr ail ddos. Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth addysg wedi recordio fideo yn Gymraeg ac yn Saesneg ar DVD, y gall y cleifion ei wyllo gartref. Diben y prosiect hwn, a ymgwymerwyd ar y cyd â'r elusen Tenovus, yw atgyfnerthu negeseuon y gwasanaeth addysg, a gwella ymhellach ddealltwriaeth y cleifion o'u triniaeth gemotherapi a'u meddyginiaeth.
- 120.** Yn gyffredinol ledled Cymru, nid yw fferyllfeydd ysbytai yn gwneud digon i ddarparu gwybodaeth am feddyginiaethau i grwpiau o gleifion sydd ag anghenion gwybodaeth penodol. Nid yw fferyllfa'r Ymddiriedolaeth yn darparu unrhyw wybodaeth benodol i blant ifanc (ni ddarperir cemotherapi gan yr Ymddiriedolaeth i blant a phobl ifanc yn eu harddegau, ond darperir radiotherapi iddynt) neu gleifion sydd ag amhariad ar eu golwg, ond darperir gwybodaeth i siaradwyr ieithoedd ac eithrio Saesneg. O blith y 18 o ysbytai y cynhaliwyd arolwg ynddynt yng ngweddill Cymru, roedd pump yn cynhyrchu gwybodaeth a dargedwyd ar gyfer plant ifanc, saith yn darparu ar gyfer rhai ag amhariad ar eu golwg, ac wyth yn darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ac eithrio Saesneg.
- 121.** Dywed y Safonau y dylai fod modd i gleifion alw llinell gymorth i drafod eu meddyginiaethau. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i gleifion sy'n ansicr ynglŷn â'u trefniadau meddyginiaeth ar ôl eu rhyddhau. Ledled Cymru, daethom i'r casgliad bod llinellau cymorth rhai fferyllfeydd yn cael eu tanddefnyddio, er gwaethaf eu pwysigrwydd o ran helpu cleifion i reoli eu meddyginiaethau. Nid yw'r Ymddiriedolaeth, fel rhan o'r drefn arferol, yn darparu rhif cyswllt teleffon i gleifion, i'w ddefnyddio ar ôl eu rhyddhau os cânt broblemau gyda meddyginiaeth, ond mae fferyllfa'r ysbyty yn agored i gymryd galwadau teleffon gan gleifion am 45 awr yn ystod yr wythnos ac am dair awr yn ystod penwythnosau. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi dadansoddi natur y galwadau gan gleifion. Gallai dadansoddiad o'r fath ei galluogi i lunio 'Cwestiynau a ofynnir yn aml', a fyddai'n atal rhai o'r ymholiadau a glywir amlaf gan gleifion. Mae [Arddangosyn 14](#) yn crynhoi'r data allweddol ynghylch llinell deffon fferyllfa'r Ymddiriedolaeth.

**Arddangosyn 14: Mae'r llinell gymorth yn Felindre yn agored am fwy o oriau na'r cyfartaledd yn ystod yr wythnos ond mae lefel y defnydd a wneir ohoni yn debyg i'r hyn a welir ledled Cymru**

	Cyfanswm yr oriau agor (Llun- Gwe)	Cyfanswm yr oriau agor (Sad-Sul)	Nifer cyfartalog o gysylltiadau am bod 100 awr yn agored
Felindre	45	3	31

Ffynhonnell: Offeryn Rheoli Meddyginiaethau Creiddiol Swyddfa Archwilio Cymru

<sup>33</sup> Cyfrifir cyfartaledd Cymru ar draws y 12 safle ysbyty sy'n darparu gwasanaeth llinell gymorth. Ni ddarperir llinell gymorth unswydd gan chwech o'r safleoedd, ond mae tair o'r rhain yn cynnig rhif cyswllt teleffon i gleifion rhag ofn y cânt broblemau gyda meddyginiaethau ar ôl eu rhyddhau.



---

## Cymorth wrth ryddhau

Mae fferyllwyr, nyrsys a meddygon yn cytuno mai'r rhesymau mwyaf cyffredin am oedi cyn rhyddhau cleifion, mewn cysylltiad â meddyginiaethau, yw aros i bresgripsiynau gael eu hysgrifennu, ac oedi cyn eu darparu. Mae lle hefyd i wella'r modd y cyfathrebir â'r sector gofal sylfaenol ynghylch meddyginiaethau pan ryddheir cleifion

- 122.** Mae'n arfer da pan fo'r staff mewn ysbyty yn dechrau cynllunio cyn gynted ag y bo modd ar gyfer rhyddhau claf.<sup>34</sup> Drwy amcangyfrif y dyddiad rhyddhau, gellir sicrhau bod yr holl staff yn dilyn yr un amserlen, a gellir osgoi oedi. Ledled Cymru, yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol, canfuom fod gan 47 y cant o'r cleifion a adolygwyd amcangyfrif o'u dyddiad rhyddhau. Yn yr Ymddiriedolaeth hon roedd y proffil yn debyg, sef 41 y cant o'r cleifion gydag amcangyfrif o'u dyddiad rhyddhau.
- 123.** Gellir gohirio rhyddhau claf o'r ysbyty am nifer o wahanol resymau. Yn ystod ein hymweliadau a'r wardiau, mynegwyd rhwystredigaeth gan rai o'r staff nyrsio a meddygol oherwydd oedi yn yr adran fferylliaeth ynglŷn â meddyginiaethau rhyddhau. Dywedodd y staff fferyllol wrthym fod oedi ddigwydd weithiau, ond bod rhywfaint ohono i'w briodol i ddiffyg adnoddau, a rhywfaint i arafwch y staff meddygol sy'n ysgrifennu'r presgripsiwn. Mae **Arddangosyn 15** yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd wrth ein harolwg gan staff fferyllol, nyrsys a meddygon ynghylch achosion mwyaf cyffredin yr oedi cyn rhyddhau sy'n ymwneud â meddyginiaethau.

**Arddangosyn 15: Roedd pob grŵp o'r staff yn cytuno mai'r ddau reswm mwyaf cyffredin am oedi mewn perthynas â meddyginiaethau cyn rhyddhau cleifion oedd aros am i bresgripsiynau gael eu hysgrifennu ac oedi yn y ddosbarthfa**

	<b>Barn y staff fferyllol</b>	<b>Barn y nyrsys</b>	<b>Barn meddygol</b>
1 (mwyaf cyffredin)	Aros i bresgripsiwn gael eu ysgrifennu	Aros i feddyginiaethau gael eu paratoi yn y ddosbarthfa	Aros i bresgripsiwn gael eu ysgrifennu
2	Aros i feddyginiaethau gael eu paratoi yn y ddosbarthfa	Aros i bresgripsiwn gael eu ysgrifennu	Aros i feddyginiaethau gael eu paratoi yn y ddosbarthfa
3	Aros i feddyginiaethau gael eu danfon i'r ward	Aros i feddyginiaethau gael eu danfon i'r ward	Aros i feddyginiaethau gael eu danfon i'r ward
4	Aros i'r 'i fynd allan' (IFA) gael eu baratoi yn y ward	Aros i'r presgripsiwn gael eu wirio yn glinigol	Aros i'r presgripsiwn gael eu wirio yn glinigol
5	Aros i'r presgripsiwn gael eu wirio yn glinigol	Aros i'r 'i fynd allan' (IFA) gael eu baratoi yn y ward	Aros i'r 'i fynd allan' (IFA) gael eu baratoi yn y ward

Ffynhonnell: Arolygon Swyddfa Archwilio Cymru o fferyllwyr a staff meddygol

- 124.** Mae'r broses o baratoi meddyginiaethau ar gyfer rhyddhau cleifion yn amrywio yn ôl y ward. Yn Ward y Llwrw Cyntaf a'r Uned Cymorth Gweithredol, paratwir y meddyginiaethau 'i fynd allan' gan dechnegwyr fferyllol, ond yn yr Uned Cemotherapi Cleifion Mewnol, rhaid i'r staff nyrsio fynd â'r presgripsiwn i'r ddosbarthfa i'w baratoi. roedd y staff a gyfwelwyd gennym yn mynegi rhywfaint o

---

<sup>34</sup> College of Emergency Medicine, **The Silver Book: Quality Care for Older People with Urgent and Emergency Care Needs**, Mehefin 2012.

---

rwystredigaeth oherwydd yr amrywiad hwn a'r oedi a brofir weithiau wrth fynd â phresgripsiynau i'r ddosbarthfa.

- 125.** Pan ryddheir cleifion o'r ysbyty, mae'r rhyngwyneb rhwng yr ysbyty a meddyg teulu'r claf yn hollbwysig o ran rheoli meddyginiaethau yn ddiogel ac effeithiol. Dywed y Safonau y dylai'r trefniadau sicrhau y trosglwyddir gwybodaeth fanwl-gywir i'r gweithw(y)r proffesiynol gofal iechyd sy'n cymryd gofal o'r claf ar yr adeg y'i trosglwyddir. Mae gan yr Ymddiriedolaeth dempled sy'n pennu'r wybodaeth sydd i'w darparu i feddygon teulu wrth ryddhau claf, a defnyddir y templed ar gyfer yr holl arbenigeddau. Ar draws gweddill Cymru, roedd templed tebyg gan 17 o'r 18 ysbyty a adolygwyd gennym, ond 10 o'r ysbytai hynny yn unig oedd yn ei ddefnyddio ar gyfer pob arbenigedd.
- 126.** Dywed y Safonau y dylai sefydliadau fonitro manwl-gywirdeb, darllenadwyedd a phrydlondeb yr wybodaeth a drosglwyddir. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi monitro ansawdd a phrydlondeb ei gwybodaeth ryddhau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.
- 127.** Yn ein harolwg, roedd 56 y cant o'r staff fferyllol, 70 y cant o'r meddygon a 60 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mae'r wybodaeth a ddarperir i feddygon teulu am feddyginiaethau cleifion a ryddheir yn wybodaeth o safon uchel'. Roedd hyn yn cymharu â 41 y cant o'r staff fferyllol, 30 y cant o'r meddygon a 43 y cant o'r nyrsys ar draws gweddill Cymru.
- 128.** Roedd y Cyfarwyddwr Meddygol yn cydnabod bod lle i wella'r modd y darperir gwybodaeth ryddhau i gydweithwyr gofal sylfaenol. Dywedodd fod meddygon teulu wedi mynegi rhai safbwyntiau negyddol ynghylch ansawdd a phrydlondeb yr wybodaeth ryddhau, a rhywfaint o rwystredigaeth oherwydd na all gofal sylfaenol gael mynediad i system CANISC electronig yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gobeithio y bydd gweithredu'r system Trawsgrifio Meddyginiaethau a Rhyddhau Electronig (TMRhE) yn y dyfodol yn gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth ryddhau i staff gofal sylfaenol.
- 129.** Pan ryddheir claf o'r ysbyty, caiff y staff wneud cais am i fferyllwyr cymunedol gynnal Adolygiad Meddyginiaethau Rhyddhau (AMRh) yn fuan wedi i'r claf ddychwelyd gartref. Nod yr AMRhau hyn yw sicrhau y caiff newidiadau, a ysgogwyd ym meddyginiaethau'r claf yn yr ysbyty, eu parhau yn briodol yn y gymuned. Mae'r adolygiadau hyn hefyd yn sicrhau y cynorthwyr cleifion i gydymffurfio â'u trefniadau meddyginiaethol. Mewn adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth AMRh yng Nghymru, amcangyfrifwyd bod pob AMRh yn costio £68.50, a bod yr enillion ar fuddsoddiad mewn AMRhau oddeutu 3:1 o ganlyniad i osgoi ymweliadau brys ag adrannau argyfwng, derbyniadau i ysbytai a gwastraffu meddyginiaethau.<sup>35</sup> Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r broses AMRh, ond yn ei hunanasesiad gyferbyn â'r Safonau, dywed fod bwriad i ddatblygu cynnig ynghylch y ffordd orau i ddarparu gwasanaeth AMRh.

---

<sup>35</sup> Prifysgol Caerdydd, **Evaluation of the discharge meddyginiaethau review service**, Mawrth 2014

---

## Stiwardiaeth wrthficrobaidd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd nifer o gamau buddiol i wella'r modd y defnyddir meddyginiaethau gwrthficrobaidd. Mae lle i wella ymhellach y dull o gofnodi parhad triniaethau ar y siartiau cyffuriau

130. Mae ymwrthedd i wrthfotigau wedi cynyddu yng Nghymru.<sup>36</sup> Yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar stiwardiaeth wrthficrobaidd, cyfeirir at y pwysigrwydd o hyrwyddo presgripsiynu gwrthficrobaidd da drwy gynnal archwiliadau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal archwiliadau i'r agweddau canlynol ar y defnydd o wrthficrobau ym mhob maes gwasanaeth: mynychder ar adegau penodol, ac ymddangosiad organebau problematig, ac mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynnal astudiaethau eraill<sup>37</sup>. Nid yw'r canlynol wedi eu harchwilio hyd yma: costau, y dosau dyddiol diffiniedig, a chymariaethau rhwng arferion presennol a phroblemau lleol sy'n hysbys ynglŷn ag ymwrthedd i wrthfotigau. Dau yn unig o'r byrddau iechyd yng Nghymru sydd wedi cynnal archwiliad i bob un o'r pum pwnc hyn. Nid oedd canfyddiadau'r archwiliadau hyn o fewn cwmpas ein harchwiliad ni.
131. Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth ar bresgripsiynu gwrthfotigau, a rhoddwyd canllawiau, sy'n ymdrin â phresgripsiynu ar gyfer pob dynodiad clinigol, ar waith yn yr holl arbenigeddau a chyfarwyddiaethau. Darperir adborth ar y presgripsiynu gwrthfotigaidd ym mhob maes, ond ni chyfeirir at ymarfer clinigwyr unigol. Nid oes canllawiau wedi eu dosbarthu hyd yma ar bresgripsiynu ar gyfer proffylacsis llawfeddygol.
132. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau eraill i wella ei stiwardiaeth wrthficrobaidd. Mae'r camau hyn yn cynnwys rhaglen addysg i'r meddygon yn y wardiau, trefnu rowndiau ward gan ficrobiolegydd ymgynghorol, gosod canllawiau ar gyfer triniaethau gwrthficrobaidd ar fewnwyd yr Ymddiriedolaeth, ac enwebu fferylydd gwrthficrobaidd unswydd. Mae nifer o'r byrddau iechyd bellach yn defnyddio sticeri ar siartiau cyffuriau i atgoffa presgripsiynwyr i nodi cyfnod parhad gofynnol unrhyw driniaeth wrthficrobaidd. Roedd Felindre'n bwriadu mabwysiadu'r sticeri hyn ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn. Er bod presgripsiynwyr yn yr Ymddiriedolaeth yn gwella o ran pennu cyfnodau parhad, dywedwyd wrthym yn ystod ein gwaith maes fod lle i wella ymhellach.

---

<sup>36</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Antimicrobial resistance and usage in Wales (2005-2011)**, Tachwedd 2012

<sup>37</sup> Er enghraifft, astudiaethau o oblygiadau'r dewisiadau gwrthficrobaidd i grwpiau penodol o gleifion.

# Rhan 5

---

## Monitro gwasanaethau fferylliaeth

Ni ddefnyddir y data perfformiad mewn perthynas â meddyginiaethau yn ddigon rheolaidd i hyrwyddo gwelliant; ac er bod agweddau da i'r modd y dysgir o ganlyniad i ddigwyddiadau, dylid gwneud rhagor o waith er mwyn deall pam y mae ymyriadau diogelwch gan fferyllwyr yn digwydd yn amlach na'r cyfartaledd

### Adrodd am berfformiad

Mae lle i wella rhywfaint ar y modd y defnyddir ac y rhennir data perfformiad, er mwyn gwella rheolaeth meddyginiaethau ymhellach

133. Dywed y **Safonau Proffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Fferyllol mewn Ysbytai** (y Safonau) y dylai dangosyddion perfformiad allweddol fod wedi eu sefydlu ar gyfer asesu perfformiad yn fewnol ac yn allanol.
134. Yn ein cais am ddogfennau, gofynnwyd am enghreifftiau o brif adroddiadau perfformiad neu gardiau sgorio perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar reoli meddyginiaethau, o'r chwe mis diwethaf. Rydym wedi adolygu Adroddiad Perfformiad Ymddiriedolaeth GIG Felindre 2014-15 sy'n ymdrin â pherfformiad, ansawdd a diogelwch ar draws y ganolfan ganser, Gwasanaeth Gwaed Cymru ac Is-adran Gorfforaethol yr Ymddiriedolaeth. Yn yr adolygiad perfformiad, tri dangosydd yn unig sydd yn berthnasol i reoli meddyginiaethau, sef:
  - cydymffurfiaeth y presgripsiynu gwrthfotig â dogfennu'r dynodiad ar gyfer ei ddefnyddio – ym Mawrth 2015, roedd y perfformiad wedi cyrraedd cydymffurfiaeth o 100 y cant ym mhob mis o'r flwyddyn flaenorol ac eithrio dau;
  - cydymffurfiaeth y presgripsiynu gwrthfotig â dogfennu'r cyfnod parhad/dyddiad adolygu – ym Mawrth 2015, nid oedd y gydymffurfiaeth fisol wedi cyrraedd yn uwch nag 80 y cant ac yr oedd rhwng 30 a 50 y cant yn nodweddiadol; a
  - cydymffurfiaeth â NICE – mae'r adran hon o'r adolygiad perfformiad yn rhestru camau a gymerwyd i weithredu canllawiau NICE.
135. Darparwyd inni hefyd ddogfen dyddiedig Medi 2014, sef **Trosolwg ar y Gwasanaethau Fferylliaeth Cyfredol (Current Pharmacy Services Overview Report)**. Yn yr adroddiad hwnnw rhoddid data am yr amseroedd aros cyfartalog am bresgripsiynau therapi gwrth-ganser systemig (ThGS) a phresgripsiynau am feddyginiaethau ac eithrio ThGS yn y ganolfan ganser. Roedd y perfformiad ar y ddau fesur hyn yn well na'r targed yn gyson.
136. Yn olaf, buom yn adolygu'r **Adroddiad Blynnyddol ar Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau (Pharmacy and Medicines Management Annual Report)** a oedd yn cynnwys data ar y dangosyddion canlynol: cysoni meddyginiaethau o fewn 24 awr, y ganran o bresgripsiynau rhyddhau a baratoid ar lefel y ward a chwblhau asesiad o'r risg o thrombosis a geir mewn ysbyty (ThGY).
137. Canfu ein harolwg fod 57 y cant o'r staff fferyllol yn cytuno â'r gosodiad: 'Rwyf yn cael cyfle yn rheolaidd i weld data sy'n ymwneud â pherfformiad y tîm fferylliaeth.' Mae hyn yn cymharu â 39 y cant ledled Cymru.


- 
138. Yn ystod ein hymweliadau â'r ganolfan ganser, daethom i'r casgliad bod lle i hysbysebu'r data perfformiad mewn perthynas â meddyginiaethau yn fwy cyson ymhlith y staff. Dywedwyd wrthym yr anfonid rhai data at y staff drwy e-bost, neu y'i gosodid ar hysbysfwrdd y fferyllfa yn achlysurol, ond nad oedd hynny'n digwydd fel rhan o'r drefn reolaidd. Cyfeiriodd rhai o'r staff at ddata yr oeddid yn eu casglu, ond heb ledaenu'r canlyniadau o gwbl.
  139. Mae'n arfer da meincnodi perfformiad gyferbyn â sefydliadau perthnasol eraill. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi ymuno mewn partneriaeth feincnodi gyda Chanolfan Ganser Clatterbridge, ni allai'r Ymddiriedolaeth ddarparu inni unrhyw enghreifftiau o feincnodi'r perfformiad mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhannu gwybodaeth feincnodi ynglŷn â rheoli meddyginiaethau gyda sefydliadau Cymreig eraill ers 2014. Mae'r data hyn yn ymwneud â materion megis hepgor dosau a safon y cofnodi ar siartiau cyffuriau.
  140. Gofynasom i sefydliadau ddarparu enghreifftiau o'r modd yr oeddent yn monitro profiad y cleifion mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau. Llwyddodd Felindre i ddarparu nifer o enghreifftiau, megis arolwg o foddhad cleifion allanol ynghylch fferylliaeth ac arolwg o foddhad cleifion mewnol gyda'r wybodaeth a ddarperir am feddyginiaethau. roedd yr olaf yn cynnwys cymariaethau rhwng Felindre a chyrrff iechyd eraill yng Nghymru, ac roedd canlyniadau Felindre ymhlith y rhai mwyaf positif.

## Ymyriadau diogelwch a derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau

Roedd cyfradd yr ymyriadau a wnaed gan fferyllwyr yn uwch nag yng ngweddill Cymru, a'r data yn anghyson ynglŷn â chyfradd y derbyniadau a oedd yn gysylltiedig â meddyginiaethau

141. Mae rheolaeth meddyginiaethau yn gyfres gymhleth o brosesau, gyda photensial i bethau fynd o chwith yn ystod llawer o'r camau. Yr hyn ddylai fod yn ffocws absoliwt i gyrff iechyd yw sicrhau arferion diogel. Pan nodir gwallau neu ddigwyddiadau mewn perthynas â meddyginiaethau, dylai cyrrff iechyd weithredu mewn ffordd bendant a diffuant i ddysgu gwersi ac i atal digwyddiadau cyffelyb rhag digwydd drachefn.
142. Yn ein harolwg, roedd 83 y cant o'r staff fferyllol, 100 y cant o'r meddygon a 94 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Byddwn yn teimlo'n ddiogel pe bai fy meddyginiaethau'n cael eu rheoli yn yr ysbyty hwn'. Ledled Cymru, 74 y cant o'r staff fferyllol, 64 y cant o'r meddygon a 78 y cant o'r nyrsys a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad.
143. Pan â rhywbeth o'i le gyda meddyginiaeth person, gall y digwyddiad arwain yn uniongyrchol at dderbyn y person hwnnw i'r ysbyty. Mae [Arddangosyn 16](#) yn dangos canlyniad archwiliad cenedlaethol o gyfradd derbyniadau cleifion i ysbytai o ganlyniad i broblemau gyda'u meddyginiaeth. Mae cyfradd y derbyniadau o'r fath yn yr Ymddiriedolaeth islaw cyfartaledd Cymru. Mae'r data hyn yn deilio o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ond cymhlethir hwy gan y ffaith bod y timau codio yn defnyddio dulliau gwahanol ar gyfer codio achosion y derbyniadau. Mae'n bosibl, felly, y tanddatgenir maint problem y derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau.

Arddangosyn 16: Mae'n ymddangos cyfran y dderbyniadau cysylltiedig â meddyginiaethau yn is na chyfartaledd Cymru gyfan



Canran y dderbyniadau a oedd yn gysylltiedig â meddyginiaethau

Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Data gan y corff iechyd a oedd yn darparu gofal, am y cyfnod 1 Gorffennaf 2012 i 30 Mehefin 2013.

- 144.** Roedd ein hadolygiad fferylliaeth glinigol hefyd yn edrych ar dderbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau, a chanfu gyfran o dderbyniadau cysylltiedig â meddyginiaethau a oedd yn llawer uwch nag a ddangosir yn yr arddangosyn uchod. Yn yr Ymddiriedolaeth, ystyriwyd bod 22 y cant o'r cleifion a welwyd gan y tîm fferylliaeth wedi eu derbyn oherwydd mater a oedd yn gysylltiedig â meddyginiaeth<sup>38</sup>. Hon oedd y gyfran uchaf drwy Gymru, lle'r oedd y cyfartaledd yn 10 y cant. Cred yr Ymddiriedolaeth nad yw'r gyfradd gymharol uchel o dderbyniadau cysylltiedig â meddyginiaeth yn annisgwyl. Roedd yr Uned Cemotherapi Cleifion Mewnol wedi ei chynnwys yn y data hyn, ac mae gwenwyndra sy'n gysylltiedig â chemotherapi yn gymhlethdod cyffredin sydd i'w ddisgwyl mewn cleifion o'r fath.
- 145.** Rhan o rôl y tîm fferylliaeth yw gwneud ymyriadau pwysig pan fo diogelwch claf mewn perygl. Gall fod angen ymyrryd felly, er enghraifft, yn achos claf sydd ag alergedd i feddyginiaeth, er mwyn sicrhau na phresgripsiynir y feddyginiaeth honno iddo, neu er mwyn sicrhau y presgripsiynir inswlin yn gywir i gleifion diabetig sy'n ddibynnol ar inswlin. Yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol, nodwyd 12 achlysur yn yr Ymddiriedolaeth pan oedd timau fferylliaeth edi ymyrryd oherwydd gallai trefniant meddyginiaeth claf fod wedi peryglu ei ddiogelwch. Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd o 5.8 digwyddiad am bob 100 o gleifion a adolygwyd. Ar draws gweddill Cymru, y cyfartaledd oedd 4.1 digwyddiad am bob 100 o gleifion a adolygwyd. Mae'r gyfradd yn Felindre yn ddigon uchel nes awgrymu bod y tîm fferylliaeth yn gweithredu'n gyffredin fel y cyfleuster wrth gefn ar gyfer canfod a chywirow gwallau yn y prosesau rheoli meddyginiaethau. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried y data hyn ymhellach a phenderfynu a ddylid cysegru mwy o adnoddau'r tîm fferylliaeth i fynd i'r afael â'r achosion gwaelodol,

<sup>38</sup> Ystyrid bod cleifion wedi eu derbyn mewn cysylltiad â'u meddyginiaeth os oedd y diagnosis dechreuol a ddogfennwyd yn cynnwys problem bosibl gyda meddyginiaeth, gan gynnwys adwaith anffafriol i gyffur, methiant i gydymffurfio, presgripsiynu nad oedd yn seiliedig ar dystiolaeth, camgymeriad dosbarthu, cyngor gwael ynghylch meddyginiaeth, etc.


a rhwystro gwallau ac achosion 'dihangfa gyfyng' rhag digwydd, yn hytrach na cheisio'u cywiro ar ôl iddynt ddigwydd.

## Dysgu pan fo pethau'n mynd o chwith

Mae rhai agweddau da i'r modd y dysgir o ganlyniad i gamgymeriadau ynghylch meddyginiaethau; ond nid oedd safbwyntiau'r tîm fferylliaeth mor bositif ag yng ngweddill Cymru, a dylid gwneud rhagor o waith er mwyn deall pam y mae cyfran gymharol uchel o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â meddyginiaethau.

**146.** Dylai cyrff iechyd adrodd wrth y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (SGAD) ynghylch pob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch claf, fel y gellir paratoi dadansoddiadau a gwneud cymariaethau. Mae **Arddangosyn 17** yn dangos nifer y digwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaethau yr adroddwyd yn eu cylch, fel canran o'r holl ddigwyddiadau yr hysbyswyd SGAD ohonynt. Dengys yr arddangosyn fod y gyfran o'r digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â meddyginiaethau wedi bod yn llawer uwch yn nodweddiadol, na'r cyfartaledd yng ngweddill Cymru. Mae'r gyfran hon wedi gostwng yn Felindre ers 2011. Dylai'r Ymddiriedolaeth wneud rhagor o waith er mwyn deall y patrwm hwn; oherwydd gallai'r gostyngiad diweddar adlewyrchu tuedd bositif o welliant yn y modd y defnyddir meddyginiaethau, neu gallai fod yn ganlyniad lleihad ym mharodrwydd y staff i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath..


**Arddangosyn 17:** Mae'r gyfran o ddigwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaethu yn Felindre wedi bod yn arwyddocaol uwch nag yng ngweddill Cymru, er bod y gyfran hon edi gostwng ers 2011



Ffynhonnell: SGAD, Awdurdod Iechyd Arbennig Bwrdd Comisiynu'r GIG

147. Mae **Arddangosyn 18** yn dangos y mathau o ddigwyddiadau cysylltiedig â meddyginiaeth yr adroddodd yr Ymddiriedolaeth yn eu cylch wrth SGAD. Y categori mwyaf cyffredin o ddigwyddiad oedd ‘Gweinyddu/cyflenwi meddyginiaeth o fan clinigol’, sy’n cwmpasu pob cam yn y broses o weinyddu, o adolygu’r presgripsiwn, dewis y feddyginiaeth gywir, adnabod y claf cywir a rhoi’r dos.

**Arddangosyn 18: Mae digwyddiadau sy’n gysylltiedig a meddyginiaeth yn yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud yn fwyaf cyffredin â gweinyddu a chyflenwi meddyginiaethau o fannau clinigol**



Ffynhonnell: SGAD, Awdurdod Iechyd Arbennig Bwrdd Comisiynu’r GIG (1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014). Gellir cael rhagor o fanylion am y categorïau drwy ddilyn y ddolen: [https://www.eforms.nrls.nhs.uk/staffreport/help/AC/Dataset\\_Question\\_References/Medicine\\_incident\\_details/M D01.htm](https://www.eforms.nrls.nhs.uk/staffreport/help/AC/Dataset_Question_References/Medicine_incident_details/M D01.htm)

148. Yn ein harolwg, 50 y cant yn unig o’r staff fferyllol oedd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r gosodiad ‘Yn yr ysbyty hwn, adroddir yn briodol am ddigwyddiadau/gwallau sy’n gysylltiedig â meddyginiaethau, ac ymdrinnir yn briodol â digwyddiadau/gwallau o’r fath’, o gymharu â 71 y cant ar draws gweddill Cymru. Pan ofynnwyd a oeddent yn cytuno â’r gosodiad ‘Defnyddir gwybodaeth a geir o’r adroddiadau ar ddigwyddiadau/gwallau i wella diogelwch gofal y cleifion’, roedd 60 y cant yn cytuno neu’n cytuno’n gryf (o gymharu â 70 y cant ar draws gweddill o Gymru). Yn ystod ein hymweliadau â’r ganolfan ganser, dywedodd rhai o’r staff ei bod yn bosibl nad adroddir am rai digwyddiadau oherwydd prinder amser.
149. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi enwebu un o’i phrif fferyllwyr i fod yn Swyddog Diogelwch Meddyginiaethau y sefydliad, nid ymgymerir â’r rôl honno yn rheolaidd. Dylai’r rôl gynnwys rhoi arweiniad ynghylch diogelwch meddyginiaethau o fewn yr Ymddiriedolaeth, ac arwain y Grŵp Diogelwch Meddyginiaethau. Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, oherwydd galwadau eraill sy’n cystadlu am amser y person dan sylw, nad yw’r rôl yn cael ei chyflawni yn rheolaidd



- 
- 150.** Mae gan y ganolfan ganser ddau hyrwyddwr diogelwch cleifion sy'n aelodau ychwanegol o'r staff nyrsio. Chwaraeir rhan allweddol gan yr hyrwyddwyr hyn o ran dysgu oddi wrth ddigwyddiadau drwy gynorthwyo aelodau o'r staff sy'n gysylltiedig a cheisio canfod unrhyw batrymau o wallau neu gamgymeriadau. Pan adroddir am ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth, bydd yr hyrwyddwr yn cyfarfod yr unigolyn cysylltiedig ac yn edrych ar y data tueddiadau i weld a oes hanes i'r unigolyn hwnnw o fod yn gysylltiedig â digwyddiadau. Cytunir rhwng yr hyrwyddwr a'r aelod o'r staff ar gynllun gweithredu, a lofnodir wedyn gan y Pennaeth Nyrsio. Bydd yr aelod o'r staff hefyd yn cwblhau dogfen adfyfyriol, i'w gynorthwyo gyda'i ddysgu fel unigolyn.
- 151.** Adroddir wrth y Fforwm Digwyddiadau Clinigol Difrifol (FfDCD) am unrhyw ddigwyddiadau difrifol sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth. Pan fydd rhaid dysgu o'r digwyddiad ar unwaith, defnyddir e-bost 'rhaeadru cyflym' i ledaenu'r negeseuon allweddol ymhlith y staff. Lledaenir y mathau mwy arferol o negeseuon mewn cylchlythyr a gynhyrchir gan y tîm fferylliaeth. Gellir adrodd wrth y PRhM am ddigwyddiadau llai difrifol. Mae hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth gyferbyn â'r Safonau yn cydnabod nad oes unrhyw bwyllgor sengl sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am wallau a digwyddiadau meddyginiaethol.
- 152.** Gall rhai cleifion ddiodeff effeithiau negyddol o ganlyniad i gymryd eu meddyginiaethau; cyfeirir a y rhain fel adweithiau anffafriol i gyffuriau. Mae rhai o'r adweithiau hyn yn annisgwyl, ond gellir rhagweld eraill. Yn ôl cyfrifiad gan Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol<sup>39</sup> adweithiau anffafriol i gyffuriau sy'n achosi 4 o bob 100 diwrnod gwely mewn ysbytai yn y Deyrnas Unedig gan. Os derbynnir y ffigur hwnnw, mae adweithiau anffafriol yn yr Ymddiriedolaeth yn cynrychioli cost o tua £230,000 y flwyddyn, mewn diwrnodau gwely yn unig<sup>40</sup>.
- 153.** Pan fo cleifion yn profi adweithiau anffafriol o ganlyniad i'w meddyginiaethau, dylai'r staff adrodd am y digwyddiadau hynny wrth yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn. Yn ein hadolygiad fferylliaeth glinigol, ar un achlysur yn unig y canfu'r timau fferylliaeth symptomau o adwaith anffafriol i gyffur neu sgil-effeithiau posibl wrth adolygu cleifion. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd o bum digwyddiad am bob 1,000 o gleifion a adolygwyd, ac yn cyfateb yn agos i'r cyfartaledd ledled Cymru (sef chwe digwyddiad am bob 1,000 cleifion).
- 154.** Yn ein harolwg, roedd 36 y cant o'r staff fferyllol, 74 y cant o'r meddygon a 44 y cant o'r nyrsys yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad: 'Mae defnydd o'r Cynllun Cerdyn Melyn yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn yr Ymddiriedolaeth hon.' Mae hyn yn cymharu â 59 y cant o'r staff fferyllol, 31 y cant o'r meddygon a 29 y cant o'r nyrsys ledled Cymru.

---

<sup>39</sup> Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol, **Protecting resources, promoting value: A doctor's guide to cutting waste in clinical care**, Tachwedd 2014.

<sup>40</sup> Mae data StatsCymru yn dangos mai cyfanswm y diwrnodau gwely llawn yn yr Ymddiriedolaeth yn 2013-14 oedd 14,016 ac mai cost diwrnod gwely claf mewnol ar gyfartaledd ledled Cymru yw £413

# Atodiad 1

---

## Methodoleg

Y canlynol yw'r dulliau a ddefnyddiwyd yn ein harchwiliad:

Yr offeryn rheoli meddyginiaethau creiddiol	Yr offeryn creiddiol oedd prif ffynhonnell y data y ar y lefel gorfforaethol, y gofynasom amdanynt gan yr Ymddiriedolaeth. Taenlen seiliedig ar Excel oedd yr offeryn.
Cais am ddogfennau	Ceisiwyd gan yr Ymddiriedolaeth ac adolygwyd tua 30 o ddogfennau .
Yr adolygiad fferylliaeth glinigol	Cyflawnwyd yr adolygiad fferylliaeth glinigol gan dimau fferylliaeth yn y wardiau canlynol yng Nghanolfan Ganser Felindre: <ul style="list-style-type: none"><li>• Ward y Llawr Cyntaf</li><li>• Yr Uned Cymorth Gweithredol</li><li>• Yr Uned Cemotherapi Cleifion Mewnol</li></ul> Roedd yr offeryn yn amcanu i gofnodi gweithgarwch y timau fferylliaeth yn ystod ymweliadau â'r wardiau.
Cyfweliadau	Buom yn cyfweled nifer o'r staff, gan gynnwys: y Cyfarwyddwr Meddygol, y Prif Fferylllydd, Prif Fferyllwyr, y Pennaeth Nyrsio, Fferyllwyr, Technegwyr, Rheolwyr Wardiau, Hyrwyddwr Diogelwch Cleifion, Staff Nyrsio a Staff Meddygol.
Ymweliadau ar droed	Buom yn ymweld â'r fferyllfa, y ddosbarthfa a'r wardiau cleifion mewnol yng Nghanolfan Ganser Felindre. Cynhaliwyd arsylwadau, cyfweliadau ac adolygiadau o siartiau cyffuriau.
Arolygon o staff meddygol a nyrsio	Buom yn cynnal arolwg ar-lein o sampl o'r staff meddygol a nyrsio i ofyn eu barn am effeithiolrwydd rheolaeth meddyginiaethau o fewn y sefydliad. Cawsom 23 o ymatebion gan feddygon, 19 ohonynt yn feddygon ymgynghorol. Ar draws gweddill Cymru cawsom 413 o ymatebion gan feddygon. Yn yr Ymddiriedolaeth cawsom 45 o ymatebion gan nyrsys (ac ar draws gweddill Cymru cawsom 377 o ymatebion gan nyrsys).
Arolwg o staff fferyllol	Buom yn cynnal arolwg ar-lein o sampl o'r staff fferyllol i ofyn eu barn am effeithiolrwydd rheolaeth meddyginiaethau o fewn y sefydliad. Cawsom gyfanswm o 30 o ymatebion. Ar draws gweddill Cymru cawsom 407 o ymatebion gan staff fferyllol.
Defnyddio data presennol	Pan oedd modd, defnyddiwyd ffynonellau data a oedd yn bodoli eisoes, megis data am ddiwyddiadau allan o SGAD, data o'r adolygiad gan Brifysgol Caerdydd o'r Gwasanaeth AMRh, ac ymarferiad mapio adnodd fferylliaeth GIG Cymru 2014.



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)